

Canllawiau Statudol a Chod Ymarfer

Gwasanaethau Mabwysiadu

Mae'r canllawiau statudol hyn a'r Cod Ymarfer yn ymwneud â Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019

Ebrill 2019

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Ynglŷn â'r canllawiau a'r cod ymarfer

Statws

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n berthnasol o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Mae Penodau 1, 3 a 4 o'r ddogfen hon yn ganllawiau statudol ar gyfer **darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol**, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 29 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016).

Mae Penodau 2, 3, 5 a 6 o'r ddogfen hon yn god ymarfer statudol ar gyfer **awdurdodau lleol** ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â darparu gwasanaethau mabwysiadu, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

Darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol

Mae'r Rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2016 a'r canllawiau statudol hyn yn disodli gofynion a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a'i Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

- sut y gall darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a orfodir gan reoliadau a wneir o dan adran 27 o Ddeddf 2016;
- sut y gall personau a ddynodir yn unigolyn cyfrifol am wasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig gydymffurfio â'r gofynion a orfodir drwy'r rheoliadau a wneir o dan adran 28 o Ddeddf 2016.

Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Rhannau 5 i 13 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 ("y Rheoliadau"). Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn Ebrill 2019 ac fe ddaw'r canllawiau hyn i rym ar yr un pryd hefyd.

Mae Adran 29(3) o Ddeddf 2016 yn dweud bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig **roi sylw i'r canllawiau hyn** wrth fodloni'r gofynion a orfodir drwy reoliadau o dan adrannau 27 a 28 o'r Ddeddf.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i'r darparwyr hynny sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth o dan adran 6 o Ddeddf 2016. Mae canllawiau ynghylch cofrestru wedi'u cynhyrchu gan reoleiddiwr y gwasanaeth, sef Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae ar gael ar ei gwefan.

Rhaid i'r sawl sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig wneud cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel rheoleiddiwr y gwasanaeth. Rhaid i ddarpar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ddangos y byddant yn gallu bodloni'r gofynion a orfodir gan Ddeddf 2016 a'r Rheoliadau ac, ar ôl iddynt gofrestru, y byddant yn dal i'w bodloni.

Er mwyn iddi ganiatáu cais i gofrestru, rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn fodlon y bydd unrhyw ddarpar ddarparwr gwasanaeth rheoleiddiedig yn gallu ac y bydd yn parhau i fodloni'r safonau darparu gwasanaethau a bennir yn y rheoliadau o dan adran 27 o Ddeddf 2016. Rhaid i Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn fodlon hefyd fod y sawl a ddynodir yn unigolyn cyfrifol yn gallu ac y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau a restrir yn y rheoliadau o dan adran 28 o'r Ddeddf.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio'i phenderfyniadau i ganiatáu neu i wrthod ceisiadau i gofrestru'n ddarparwr gwasanaeth.

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio penderfyniadau ynglŷn ag i ba raddau y mae darparwyr cofrestredig ac unigolion cyfrifol yn bodloni'r gofynion hynny.

Mae darparwyr gwasanaethau'n gyfrifol am benderfynu sut y bodlonir y gofynion, gan gadw mewn cof anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol dynodedig roi sylw i'r canllawiau hyn. Os na fyddant yn dilyn y canllawiau hyn, rhaid iddynt roi tystiolaeth i ddangos bod eu ffordd o weithio'n euc galluogi i fodloni'r gofynion yn Rhannau 5 i 13 o'r Rheoliadau.

Gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol

Mae Adran 9 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â rheoleiddio ac arolygu swyddogaethau'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â mabwysiadu. Gwnaed y gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu a rheolwyr yr awdurdodau lleol yn y Rheoliadau o dan yr adran hon. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, mae'r un gofynion neu ofynion tebyg wedi'u gorfodi ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol ag sydd wedi'u gorfodi ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn y Rheoliadau. Mae hyn yn arbennig o wir am y gofynion yn Rhannau 4 i 8 ac 17 o'r Rheoliadau.

Mae Penodau 2, 3 5 a 6 o'r ddogfen hon yn cynnwys cod ymarfer a gyhoeddir a dan adran 145 o Ddeddf 2014. Mae Adran 145 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran gwasanaethau mabwysiadu, weithredu yn unol â'r gofynion a gynhwysir yn y cod hwn. Nid yw adran 147 o Ddeddf 2014 (gwyro oddi wrth ofynion mewn codau) yn gymwys i unrhyw ofynion a gynhwysir yn y cod hwn, felly rhaid dilyn y cod hwn yn llawn.

Strwythur

Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Pennod 1 – Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig
- Pennod 2 – Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol
- Pennod 3 - Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu - gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig **yn ogystal â** gwasanaethau awdurdodau lleol
- Pennod 4 – Gofynion ar Unigolion Cyfrifol
- Pennod 5 – Gofynion ar reolwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol
- Pennod 6 – Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol

Mae pob pennod yn y ddogfen yn nodi'r Rheoliad perthnasol ar ochr chwith y dudalen, gyda'r canllawiau / cod ymarfer cyfatebol ar yr ochr dde.

Mae'n bwysig bod darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ac unigolion cyfrifol, a darparwyr a rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol, yn cyfeirio at destun gwreiddiol pob rheoliad fel y ffnhonnell wybodaeth gyntaf am y gofynion a sut i'w bodloni. Mae'r canllawiau hyn a / neu'r cod ymarfer yn esbonio rhagor am sut i fodloni elfennau unigol pob rheoliad lle y gall fod angen rhagor o eglurhad a diffinio. Lle y bydd testun y rheoliad yn hunanesboniadol, ni roddir rhagor o ganllawiau.

Ni ddylid ystyried bod y canllawiau / y cod ar gyfer elfennau unigol pob rheoliad yn cynnwys pob sefyllfa, oherwydd efallai y bydd modd i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig – ac unigolion cyfrifol, a darparwyr a rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol ddangos eu bod yn bodloni pob elfen o'r rheoliad mewn ffyrdd eraill.

Gorfodi – darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig

Mae rhannau 3a 5 i 13 o'r Rheoliadau yn nodi gofynion clir y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig lynu wrthynt. Gall Arolygiaeth Gofal Cymru, rheoleiddiwr y gwasanaethau, gymryd camau gorfodi yn erbyn unrhyw ddarparwr gwasanaeth rheoleiddiedig ac unigolyn cyfrifol nad yw'n glynu wrth y gofynion cyfreithiol hyn.

Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn gymesur a bydd yn ystyried yr effaith ar yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth rheoleiddiedig neu unrhyw risg iddynt.

Gallai camau gorfodi gynnwys, er enghraifft:

- gosod amodau ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth;
- diddymu cofrestrriad darparwr gwasanaeth;
- cyhoeddi hysbysiad gwella;
- cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am y troseddau y gallai darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol fod yn eu cyflawni os na fyddant yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn, a'r gwahanol gamau gorfodi statudol ac anstatudol y gallai Arolygiaeth Gofal Cymru eu cymryd mewn ymateb, yng nghanllawiau'r Arolygiaeth, [Polisi ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi](#), ar eu gwefan.

Rhestr o'r prif dermau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

Term	Ystyr
Deddf 2016	Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
Deddf 2014	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf 2002	Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
Gwasanaeth Mabwysiadu	Gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan- <ul style="list-style-type: none"> (a) cymdeithas fabwysiadu o fewn ystyr Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (c.38) sy'n gorff gwirfoddol o fewn ystyr y Ddeddf honno, neu (b) asiantaeth cymorth mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir gan adran 8 o'r Ddeddf honno.
Awdurdod ardal	Yr awdurdod lleol yng Nghymru ¹ neu'r awdurdod lleol yn Lloegr ar gyfer yr ardal y mae'r plentyn wedi'i lleoli ynddi, neu y bydd yn cael ei leoli ynddi, os yw hwn yn wahanol i'r awdurdod sy'n lleoli.
Gofal a chymorth	(a) y ddarpariaeth o ofal gan gymdeithas fabwysiadu pan wneir trefniadau ar gyfer mabwysiadu plant ² ; neu <ul style="list-style-type: none"> (b) y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu (gan gymdeithas fabwysiadu neu asiantaeth cymorth mabwysiadu sydd â'r ystyr a roddir iddi yn adran 2(6) o Ddeddf 2002 a— <ul style="list-style-type: none"> a. rheoliad 3 o Reoliadau 2019 pan ddarperir gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan wasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig; neu b. rheoliad 3 o Wasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 pan ddarperir hwy gan wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol neu ar ei ran.
Cynllun gofal a chymorth	Cynllun a roddir ar waith gan yr awdurdod lleol o dan adran 54 neu adran 83 o Ddeddf 2014.
Plentyn	Person sydd o dan 18 oed
Gwarcheidwad	Yn yr ystyr a roddir iddo yn adran 5 o Ddeddf Plant 1989.
Gwasanaeth mabwysiadu	Awdurdod lleol yn cyflawni'r swyddogaethau o dan Ddeddf 2002, sef gwneud neu gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer

¹ Ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sirol neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru fel y'i rhoddir yn adran 189 o'r Ddeddf.

² Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313) yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu ddarparu cwnsela a gwybodaeth i blentyn y mae'r asiantaeth yn ei ystyried ar gyfer ei fabwysiadu, a'u darparu hefyd i riant neu warcheidwad y plentyn ac i'r darpar fabwysiadwr.

awdurdod lleol	mabwysiadu plant neu ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu fel y diffinnir hwy yn adran 2(6) o Ddeddf 2002.
Canlyniadau personol	<ul style="list-style-type: none"> • Mewn perthynas ag oedolyn, mae'n golygu'r canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno'u cyflawni. • Mewn perthynas â phlentyn, mae'n golygu— <ul style="list-style-type: none"> i. Y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno'u cyflawni; neu ii. Y canlyniadau y mae unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant yn dymuno'u cyflawni o ran y plentyn.
Awdurdod lleoli	O ran plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu awdurdod lleol yn Lloegr, yr awdurdod lleol hwnnw.
Cynrychiolydd	Unrhyw un sydd â'r awdurdod cyfreithiol, neu gydsyniad yr unigolyn i weithredu ar ran yr unigolyn.
Unigolyn cyfrifol <i>(Gweler disgrifiad llawn yn adran 21 o Ddeddf 2016)</i>	<p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • os darperir y gwasanaeth gan unigolyn, darparwr y gwasanaeth; • os darperir y gwasanaeth gan bartneriaeth, un o'r partneriaid; • os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforaethol nad yw'n awdurdod lleol <ul style="list-style-type: none"> ○ un o'r cyfarwyddwyr neu swyddog tebyg arall yn y corff; ○ os darperir y gwasanaeth gan gwmni cyfyngedig cyhoeddus, un o gyfarwyddwyr neu ysgrifennydd y cwmni; ○ os darperir y gwasanaeth gan gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, un o aelodau'r corff; • os darperir y gwasanaethau gan gorff anghorfforedig, un o aelodau'r corff; • os darperir y gwasanaeth gan awdurdod lleol, un o swyddogion yr awdurdod lleol a ddynodwyd gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod hwnnw; <p>ac y mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn fodlon ei fod yn unigolyn addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol</p> <p>a'i fod wedi'i ddynodi gan ddarparwr gwasanaeth ar gyfer man y mae'r darparwr gwasanaeth'n darparu gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;</p>

	<p>a'i fod wedi'i bennu felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaeth.</p> <p>DS O dan amgylchiadau penodol (gweler Rheoliad 67, sydd heb ei gynnwys yn y canllawiau hyn) caiff Arolygiaeth Gofal Cymru ddynodi'r unigolyn cyfrifol (ar ran Gweinidogion Cymru) yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth.</p>
Darparwr (neu ddarparwyr) gwasanaeth	<p>Naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Person neu sefydliad sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Gymru i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig (h.y. darparwr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig). • Gwasanaeth mabwysiadu a ddarperir gan awdurdod lleol (h.y. darparwr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol) <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pan fo'r cyd-destun yn awgrymu fel arall, darparwr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig yn ogystal â darparwr gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol.
Staff	<ul style="list-style-type: none"> • Pobl a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth i weithio yn y gwasanaeth fel gweithiwr cyflogedig neu weithiwr (yn unol â'r ystyr yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996); • Pobl a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau; • Nid yw hyn yn cynnwys pobl y caniateir iddynt weithio fel gwirfoddolwyr.
Yr unigolyn	<p>Os nad yw'r cyd-destun yn awgrymu fel arall, ystyr 'yr unigolyn' yw—</p> <p>(a) lle bo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan gymdeithas fabwysiadu—</p> <ol style="list-style-type: none"> plentyn a all gael ei fabwysiadu ac unrhyw riant neu warcheidwad i'r plentyn hwnnw; person sy'n dymuno mabwysiadu plentyn; person mabwysiedig ac unrhyw riant, rhiant naturiol neu gyn-warcheidwad i'r person hwnnw; neu unrhyw berson arall a all fod yn derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu; cynrychiolwyr person y cyfeirir ato yn (iv); <p>(b) lle bo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan asiantaeth cymorth mabwysiadu—</p> <ol style="list-style-type: none"> unrhyw berson sy'n derbyn gwasanaethau cymorth

	<p>mabwysiadu; neu</p> <p>(ii) cynrychiolwyr unrhyw berson sy'n derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu.</p> <p>(c) lle bo'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol—</p> <p>(i) plentyn a all gael ei fabwysiadu ac unrhyw riant neu warcheidwad i'r plentyn hwnnw;</p> <p>(ii) person sy'n dymuno mabwysiadu plentyn;</p> <p>(iii) person mabwysiedig ac unrhyw riant, rhiant naturiol neu gyn-warcheidwad i'r person hwnnw; neu</p> <p>(iv) unrhyw berson arall a all fod yn derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu;</p> <p>(v) cynrychiolwyr person y cyfeirir ato yn (iv);</p> <p>(vi) unrhyw berson sy'n dymuno cael asesiad o'i angen am ddarpariaeth gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod lleol.</p>
Anghenion yr unigolyn	Anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.
Y Rheoliadau	Rheoliadau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019
Rheoleiddiwr gwasanaethau	Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru wrth gyflawni eu swyddogaethau rheoleiddio.
Y datganiad o ddiben	<p>Y datganiad o ddiben ar gyfer y man y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef:</p> <p>(a) yn achos darparwr gwasanaeth mabwysiadu, y ddogfen sy'n cynnwys yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu yn unol â rheoliad 3(c) o Reoliadau Cofrestru 2017 ac Atodlen 2 iddynt ar gyfer y man y darperir y gwasanaeth ohono(3),</p> <p>(b) yn achos gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol, yr wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu yn unol ag Atodlen 5 o Reoliadau 2019 ar gyfer y lle y darperir y gwasanaeth ohono.</p>

3 Mae Rheoliad 3(c) o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) Cymru 2017 (O.S 2017/1098). (W.278) yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth mabwysiadu ddarparu datganiad o ddiben ar gyfer pob man y bwriedir darparu'r gwasanaeth ohono.

Dolenni defnyddiol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents>

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/38/contents>

Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd angen Cymorth

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/160831well-being-statementcy.pdf>

Arolygiaeth Gofal Cymru

<http://careinspectorate.wales/?skip=1&lang=cy>

Arolygiaeth Gofal Cymru: Cofrestru

<http://careinspectorate.wales/providingcareservice/?lang=cy>

Gofal Cymdeithasol Cymru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Gofal Cymdeithasol Cymru: Hyb Gwybodaeth a Dysgu

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan>

Pennod 1: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig (Rhan 3 o'r Rheoliadau)

Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn unig. Mae'r cyfeiriadau yn y bennod hon at ddarparwr gwasanaeth yn golygu 'y darparwr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig' ac mae'r cyfeiriadau at wasanaeth yn golygu 'y gwasanaeth mabwysiadu'.

Mae rhan 3 o'r Rheoliadau'n nodi'r ffordd y darperir y gwasanaeth, gan gynnwys:

- gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben
- gofynion i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth;
- y trefniadau ar gyfer monitro a gwella;
- gwneud hysbysiadau i Weinidogion Cymru a chyrrff eraill;
- dynodi unigolyn cyfrifol;
- gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth mabwysiadu;
- hyrwyddo diwylliant o fod yn agored a gonest ar bob lefel a chydymffurfio â'r safonau ymddygiad ac arfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol.

Rheoliad 5	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgîl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<ul style="list-style-type: none">○ polisiau a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i wneud unigolion yn ganolog i'r gwasanaeth;○ systemau ar gyfer monitro ac adolygu sy'n cefnogi arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n galluogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;

	<ul style="list-style-type: none"> ○ prosesau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd gyson a dibynadwy; ○ trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i fodloni anghenion gofal a chymorth unigolion; ○ systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio'r ffordd y datblygir gwasanaethau; ○ dull gweithredu rhagweithiol o ran cyfle cyfartal ac amrywiaeth; ○ safleoedd addas a hygyrch.
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 6	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad; a</p> <p>(b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben.</p> <p>(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.</p> <p>(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.</p> <p>(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i'r gwasanaeth. Rhaid iddo: <ul style="list-style-type: none"> ○ ddisgrifio'n gywir y gwasanaeth a ddarperir; ○ dweud ymhle a sut darperir y gwasanaeth hwn; ○ nodi'r trefniadau i gefnogi sut caiff y gwasanaeth ei ddarparu. • Rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth sydd yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 20174. • Wrth baratoi datganiad o ddiben, rhaid i'r darparwr ystyried unrhyw ganllawiau ynghylch datganiad o ddiben ar wefan rheoleiddiwr y gwasanaeth. • Darperir datganiad o ddiben ar gyfer pob man/lleoliad lle darperir gwasanaeth. • Mae darparwyr gwasanaethau yn adolygu ac yn diweddarau'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu'n gynt pan

ddiben.

(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—

(a) y rheoleiddiwr gwasanaethau; a

(b) unigolion;

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.

fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir.

- Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newid hwnnw. Mae'r darparwr yn rhoi gwybod i'r personau hynny a nodir yn rheoliad 6(6) 28 diwrnod cyn i'r newidiadau gael eu gwneud. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:
 - darparu gwasanaethau arbenigol ychwanegol;
 - newidiadau i'r trefniadau neu'r lefelau staffio arferol fel y nodwyd hwy yn y datganiad o ddiben sy'n bodoli'n barod.
- Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, gydag effaith ar unwaith, hynny yw o fewn y cyfnod hysbysu 28 diwrnod (sy'n ofynnol dan reoliad 6(3)), er enghraifft er mwyn ymateb i gais brys, bydd y darparwr:
 - yn rhoi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth yn syth (a hynny cyn gwneud y newid, os yw hynny'n ymarferol);
 - yn diweddarau'r datganiad o ddiben yn ddi-oed i adlewyrchu'r newid, ac yn rhoi copi i reoleiddiwr y gwasanaeth.
- Os cynigir newid i'r datganiad o ddiben, bydd darparwr gwasanaeth yn bodloni rheoleiddiwr y gwasanaeth ei fod yn gallu cyflawni'r cynigion, er enghraifft drwy roi rhagor o wybodaeth neu drefnu ymweliad gan y rheoleiddiwr â'r gwasanaeth (lle bo'n briodol).
- Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddarau, cedwir cofnod o'r fersiwn newydd a'r dyddiad diwygio.
- Mae copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn hwylus i'r rhai a restrir yn rheoliad 6(6)

Rheoliad 7	Canllawiau
<p>Addasrwydd y gwasanaeth</p> <p>(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer unigolyn oni bai bod y darparwr wedi penderfynu bod y gwasanaeth mabwysiadu yn addas i ddiwallu anghenion yr unigolyn am ofal a chymorth ac i alluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol yn unol â'r datganiad o ddiben.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi a gweithdrefnau yn eu lle ar gychwyn y gwasanaeth.</p> <p>(3) Rhaid i'r penderfyniad o dan baragraff (1) ystyried—</p> <p>(a) unrhyw gynllun cyfredol;</p> <p>(b) unrhyw asesiadau iechyd neu unrhyw asesiadau perthnasol eraill;</p> <p>(c) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn;</p> <p>(d) unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn;</p> <p>(e) unrhyw risgiau i lesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt;</p> <p>(f) argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, ynghyd â'i gyfeiriadedd rhywiol a'i hunaniaeth o ran rhywedd;</p> <p>(g) unrhyw addasiadau rhesymol y gallai'r darparwr gwasanaeth eu gwneud i alluogi i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn gael eu diwallu;</p> <p>(h) polisi a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth ar gychwyn y gwasanaeth.</p> <p>(4) Mewn achos pan na fo gan yr unigolyn gynllun, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) asesu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn; a</p> <p>(b) nodi ei ganlyniadau personol.</p> <p>(5) Rhaid i'r asesiad sy'n ofynnol gan baragraff (4) gael ei</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu bolisi a gweithdrefnau yn eu lle ar gychwyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y trefniadau ar gyfer cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu rhoi cymorth i unigolion gyflawni eu canlyniadau personol neu beidio; ○ y rhai yr ymgynghorir â hwy fel rhan o'r broses; ○ yr wybodaeth i'w hystyried; ○ y prosesau asesu a phwy fydd yn cynnal yr asesiad; ○ o dan ba amgylchiadau na fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu; ○ y trefniadau ar gyfer cychwyn y gwasanaeth. • Caiff crynodeb o'r weithdrefn gychwyn ei gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yng nghanllaw ysgrifenedig y darparwr gwasanaeth i'r gwasanaeth (gweler rheoliad 24). • Cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth, bydd y darparwr gwasanaeth yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a yw'n gallu diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn. Wrth benderfynu fel hyn, bydd y darparwr gwasanaeth: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn rheoliad 7(3) neu (4) fel y bo'n briodol; ○ yn ymgynghori â'r unigolyn a'r awdurdod lleoli (lle bo'n berthnasol) i weld beth yw eu safbwyntiau, ○ yn cael gafaél ar gopiâu o unrhyw gynllun gofal a chymorth, cynllun mabwysiadu neu gynllun lleoliad mabwysiadu (lle bo'r rhain ar gael) ac yn eu hystyried; ○ yn ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn neu i eraill sy'n

gynnal gan berson sydd—

- (a) â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad; a
 - (b) wedi cael hyfforddiant i gynnal asesiadau.
- (6) Wrth wneud y penderfyniad ym mharagraff (1), rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys yr unigolyn, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolydd. Ond nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gynnwys cynrychiolydd—
- (a) os yw'r unigolyn yn oedolyn neu'n blentyn 16 oed neu drosodd ac nad yw'r unigolyn yn dymuno i'r cynrychiolydd gael ei gynnwys, neu
 - (b) pe byddai cynnwys y cynrychiolydd yn anghyson â llesiant yr unigolyn.
- (7) Yn y rheoliad hwn, caiff "cynllun" gynnwys—
- (a) cynllun cymorth mabwysiadu(5);
 - (b) cynllun gofal a chymorth; neu
 - (c) cynllun lleoliad mabwysiadu(6).

defnyddio'r gwasanaeth.

- Mae'r darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth perthnasol ar gael i'r unigolion i'w galluogi i ddeall y dewisiadau sydd ar gael iddynt, a hynny mewn fformat sy'n hygyrch i'r unigolion ac yn addas i'w hoed a lefel eu dealltwriaeth.
- Os nad yw'r galluedd meddyliol gan yr unigolyn i allu gwneud penderfyniadau penodol am ei ofal a'i gymorth, ac nad oes cynrychiolydd cyfreithlon wedi'i benodi, dylid penderfynu beth sydd orau er ei fudd pennaf a gweithredu ar hynny, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Mae'r wybodaeth a geir yn ddigonol i alluogi'r unigolyn i gael ei drosglwyddo'n esmwyth i dderbyn y gwasanaeth.
- Mae gan bobl sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar ran y darparwr gwasanaeth ddigon o gyfrifoldeb/statws (yn y sefydliad) i wneud penderfyniad ynghylch a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- Os darperir y gofal a'r cymorth mewn argyfwng, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys asesiadau perthnasol) cyn eu darparu, er mwyn sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion y plentyn.
- Os nad oes gan unigolyn asesiadau a/neu gynllun gofal a

(5) "Cynllun cymorth mabwysiadu" yw'r cynllun sy'n nodi'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu eu darparu ar gyfer y plentyn a'r teulu mabwysiadol, sut y darperir hwy a chan bwy (os yw'n gymwys).

(6) Mae i "cynllun lleoliad mabwysiadu" yr ystyr a roddir yn rheoliad 36(2) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313).

	<p>chymorth, cynllun cymorth mabwysiadu neu gynllun lleoliad mabwysiadu ar hyn o bryd, rhaid cynnal asesiad cyn cytuno i ddarparu gwasanaeth. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys yr anghenion gofal a chymorth, unrhyw gymorth arbenigol sydd ei angen, ac anghenion cyfathrebu, emosiynol, addysgol, cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac ysbrydol. Dylai hefyd sefydlu beth yw canlyniadau a dyheadau personol yr unigolyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pan fydd y ddarpariaeth gwasanaeth yn ymwneud ag oedolyn mabwysiedig a'i berthnasau biolegol, dylid rhoi blaenoriaeth i ddymuniadau, teimladau a lles a diogelwch yr oedolyn mabwysiedig. • Mae unigolion yn cael gwybod y gallai fod ganddynt hawl i ofyn am asesiad o'u hangen am wasanaethau cymorth mabwysiadu gan eu hawdurdod lleol.
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 8	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu.</p> <p>(2) Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) unigolion; (b) unrhyw gynrychiolwyr, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant y person hwnnw; (c) unrhyw awdurdod lleol neu awdurdod lleol yn Lloegr sydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud; ○ sut y bydd hyn yn cael ei wneud; ○ pa mor aml y mae hyn yn digwydd; ○ trefniadau er mwyn i'r unigolyn cyfrifol adrodd wrth ddarparwr y gwasanaeth. • Mae canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd

wedi trefnu bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu darparu gan y gwasanaeth mabwysiadu;

(d) unrhyw berson sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu,

ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu a sut y gellir gwella hyn.

(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2); a

(b) rhoi sylw i'r adroddiad ar ansawdd y gofal a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 58 (adolygiad o ansawdd y gofal).

camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Mae darparwyr gwasanaethau yn ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau.

- Mae darparwyr gwasanaethau mabwysiadu'n gallu dangos sut maent:
 - wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi;
 - wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwylidig.
- Mae'r systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaeth i weld ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau ac i alluogi ymateb prydol priodol.
- Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, bydd darparwyr gwasanaeth:
 - yn annog adborth
 - yn ceisio barn yr unigolion am ansawdd y gofal a'r cymorth;
 - yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn, a pha fath o adborth y maent wedi'i gael.
- Mae'r dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r rhai a restrir yn rheoliad 8(2) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu

	<p>cyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion cyfathrebu sydd ganddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddir gwybodaeth a gesglir drwy systemau ansawdd ac archwilio i lunio'r adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd yn unol â rheoliad 58(4).
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 9	Canllawiau
<p>Hysbysiadau</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu'r grŵp comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 1.</p> <p>(3) Yn achos gwasanaeth mabwysiadu a ddarperir gan gymdeithas fabwysiadu, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu—</p> <p>(a) yr awdurdod lleoli am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 1;</p> <p>(b) yr awdurdod ardal am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 1;</p> <p>(c) y Bwrdd Iechyd Lleol, neu'r grŵp comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, am y digwyddiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 1.</p> <p>(4) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn gynnwys manylion y digwyddiad.</p> <p>(5) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau priodol ar waith er mwyn i'r awdurdod perthnasol gael hysbysiad am y digwyddiadau a restrir yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau. Mae hysbysiadau'n cael eu gwneud yn ddi-oed, o fewn 24 awr i'r digwyddiad fel arfer. Mae'r canlynol yn berthnasol mewn perthynas ag Atodlen 1 (Rhan 1, 21). Mae darparwyr gwasanaethau mabwysiadu'n hysbysu'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddigwyddiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu amheuaeth o hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> pan fydd plentyn yn rhoi gwybod am ddigwyddiad sy'n awgrymu y gallai fod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arno; neu pan fydd rheswm dros gredu y gallai rhywun fod yn camfanteisio'n rhywiol ar blentyn.

<p>(6) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.</p> <p>(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol", "grŵp comisiynu clinigol" a "Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol" yw'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu'r grŵp comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yr oedd y plentyn sydd wedi marw neu wedi cael anaf difrifol wrth gael gofal a chymorth yn byw yn ei ardal ar adeg y digwyddiad.</p>	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Rheoliad 10	Canllawiau
<p>Cydymffurfio â chod ymarfer</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lynu wrth y cod ymarfer ar y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwyllir oddi wrth bersonau sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol, y mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru ei gyhoeddi o dan adran 112(1)(b) o'r Ddeddf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Staff Gofal Cymdeithasol (un o gyhoeddiadau Gofal Cymdeithasol Cymru).

Rheoliad 11	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol</p> <p>(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth sy'n unigolyn.</p> <p>(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol—</p> <p>(a) yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd gyda'r unigolyn cyfrifol, ac i roi cymorth iddo. • Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi cymorth i'r unigolyn cyfrifol ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant

<p>(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.</p> <p>(3) Os bydd gan y darparwr gwasanaeth reswm dros gredu nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 9 i 13, rhaid i'r darparwr—</p> <p>(a) cymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad, a</p> <p>(b) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau.</p> <p>(4) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—</p> <p>(a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(b) goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â'r gofynion a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 3 a 5 i 8; a</p> <p>(d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.</p> <p>(5) Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a</p> <p>(b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.</p>	<p>ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ fframwaith a gofynion deddfwriaethol; ○ dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol; ○ perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd; ○ llywio diwylliant gwasanaeth, etc. <ul style="list-style-type: none"> • Os bydd unigolyn cyfrifol wedi methu â chyflawni ei rôl, bydd y darparwr gwasanaeth yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth am unrhyw gamau a gymerwyd a, lle bo hynny'n berthnasol, yn ei gynghori ynghylch y trefniadau ar gyfer dynodi rhywun yn ei le. • Os nad oes unigolyn cyfrifol neu os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y cyfrifoldeb dros oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth, fel y'i nodir yn rhannau 9 i 13 o'r Rheoliadau, yn cael ei fodloni.
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 12	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn</p> <p>(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p> <p>(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r unigolyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn dilyn hyfforddiant a fydd yn ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau'r gwasanaeth fel y maent yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ fframwaith a gofynion deddfwriaethol;

<p>ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol fel yr unigolyn cyfrifol.</p> <p>(3) Yn ystod unrhyw adeg pan yw'r unigolyn yn absennol, rhaid iddo sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—</p> <p>(a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(b) goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol,</p> <p>(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 a 5 i 8; a</p> <p>(d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.</p> <p>(4) Os nad yw'r unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid iddo—</p> <p>(a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a</p> <p>(b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol; ○ perfformiad y gwasanaeth a rheoli ansawdd; ○ llywio diwylliant y gwasanaeth etc. <ul style="list-style-type: none"> ● Os na fydd yr unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba bynnag reswm, er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch, bydd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion yn rheoliad 12(3).
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 13	Canllawiau
<p>Gofynion mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu yn gynaliadwy yn ariannol at ddiben cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnal cyfrifon priodol a chyfredol ar gyfer y gwasanaeth.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu copïau o'r cyfrifon i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.</p> <p>(4) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon gael eu hardystio gan gyfrifydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Mae systemau ar waith i sicrhau bod gwaith cynllunio ariannol, monitro'r gyllideb a rheolaeth ariannol yn cael ei wneud yn effeithiol. ● Mae systemau ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn unol ag unrhyw ganllawiau cenedlaethol a rheoliadau ariannol. ● Mae gan ddarparwyr gwasanaethau yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu ac i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben ac er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau yswiriant priodol a threfniadau indemniad priodol i warchod rhag rhwymedigaethau posibl yn sgil marwolaeth, anaf, neu achosion eraill, colled neu ddifrod i eiddo, a risgiau ariannol eraill. • Os na fydd cyfrifon archwilledig ar gael, bydd cyfrifon blynyddol yn cael eu cwblhau gan gyfrifydd cymwys at ddibenion rheoleiddio ac archwilio. • Mae'r cyfrifon yn dangos bod y gwasanaeth yn ariannol hyfyw ac yn debygol o fod â digon o arian i barhau i gyflawni ei ddatganiad o ddiben.
--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 14	Canllawiau
<p>Dyletswydd gonestrwydd</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) unigolion sy'n cael gofal a chymorth; (b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisiâu a gweithdrefnau sy'n hybu diwylliant o fod yn agored a thryloyw, ac sy'n sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae'r rhain yn unol â chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth. Canllawiau ydynt ar y ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. • Mae darparwyr gwasanaethau yn hyrwyddo diwylliant o onestrwydd sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod yn agored ac yn onest, ac ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u rhestru yn rheoliad 14(a) a (b); ○ darparu gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau perthnasol ac am ganlyniad unrhyw ymchwiliadau sydd wedi'u cynnal;

	<ul style="list-style-type: none">○ cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, lle bo'n briodol gwneud hynny.• Mae darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau i atal ac i ddelio'n briodol â bwlio, erledigaeth a/neu aflonyddu mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, ac yn ymchwilio i unrhyw achosion lle gallai aelod o'r bwrdd, unigolyn cyfrifol neu aelod o'r staff fod wedi rhwystro rhywun arall wrth iddo arfer ei ddyletswydd gonestrwydd.• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau system ar waith i ganfod ac i ddelio ag achosion posibl o fynd yn groes i'r ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol, gan gynnwys rhwystro rhywun arall wrth iddo arfer ei ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd. Mae'r camau i fynd i'r afael ag achosion o'r fath yn cynnwys, lle bo'n briodol, atgyfeirio at y rheoleiddiwr proffesiynol neu gorff perthnasol arall.
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Pennod 2: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol (Rhan 4 o'r Rheoliadau)

Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn unig. Mae'r cyfeiriadau yn y bennod hon at ddarparwr gwasanaeth yn golygu 'darparwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol' ac mae'r cyfeiriadau at wasanaeth yn golygu 'gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol'.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau'n nodi'r ffordd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau mabwysiadu, gan gynnwys:

- gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben
- trefniadau ar gyfer monitro a gwella
- penodi rheolwr gwasanaethau mabwysiadu.

Rheoliad 15	Cod Ymarfer
<p>Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu wedi ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgîl digonol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau clir i oruchwylio a llywodraethu eu gwasanaeth mabwysiadu er mwyn sefydlu, datblygu a gwreiddio diwylliant sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion sy'n defnyddio gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol ac i fodloni gofynion y Rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:<ul style="list-style-type: none">○ polisiâu a gweithdrefnau i gyflawni nodau'r datganiad o ddiben ac i wneud unigolion yn ganolog i wasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol;○ systemau ar gyfer asesu, monitro ac adolygu sy'n cefnogi ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;○ prosesau i sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd gyson a dibynadwy;○ trefniadau staffio diogel, wedi'u hategu gan ddatblygiad proffesiynol, i fodloni anghenion gofal a chymorth

	<p>unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ systemau ansawdd ac archwilio i adolygu cynnydd a llywio'r ffordd y datblygir y gwasanaeth; ○ dull gweithredu rhagweithiol o ran cyfle cyfartal ac amrywiaeth; ○ safleoedd addas a hygyrch.
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 16	Cod Ymarfer
<p>Cynnwys y datganiad o ddiben</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio datganiad o ddiben sy'n cynnwys yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 5.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r datganiad o ddiben yn hanfodol i wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol. Rhaid iddo: <ul style="list-style-type: none"> ○ ddisgrifio'n gywir y gwasanaethau a ddarperir; ○ dweud ymhle a sut y darperir y gwasanaethau hyn; ○ nodi'r trefniadau i gefnogi sut y caiff y gwasanaethau eu darparu. • Rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth sydd yn Atodlen 5 i'r Rheoliadau. • Wrth baratoi datganiad o ddiben, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ynghylch y datganiad o ddiben

Rheoliad 17	Cod Ymarfer
<p>Gofynion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth mabwysiadu yn unol â'r datganiad o ddiben.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cadw'r datganiad o ddiben o dan adolygiad, a (b) pan fo'n briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r darparwyr gwasanaethau yn adolygu ac yn diweddarau'r datganiad o ddiben bob blwyddyn, o leiaf, neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth a ddarperir. • Os bwriedir newid y gwasanaeth a ddarperir, bydd y datganiad o ddiben yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r

<p>(3) Oni bai bod paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad sydd i'w wneud i'r datganiad o ddiben o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y mae i gymryd effaith.</p> <p>(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn achosion pan fo'n angenrheidiol diwygio'r datganiad o ddiben gydag effaith ar unwaith.</p> <p>(5) Os yw paragraff (4) yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth, yn ddi-oed, hysbysu'r personau a restrir ym mharagraff (6) am unrhyw ddiwygiad a wneir i'r datganiad o ddiben.</p> <p>(6) Y personau y mae rhaid iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddiwygiad i'r datganiad o ddiben yn unol â pharagraff (3) neu (5) yw—</p> <p>(a) y rheoleiddiwr gwasanaethau;</p> <p>(b) unigolion.</p> <p>(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r datganiad o ddiben cyfredol i unrhyw berson ar gais, oni bai nad yw'n briodol gwneud hynny neu y byddai gwneud hynny yn anghyson â llesiant unigolyn.</p>	<p>newid hwnnw. Mae'r darparwr gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r personau hynny a nodir yn rheoliad 17(6) 28 diwrnod cyn i'r newidiadau gael eu gwneud. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ darparu gwasanaethau arbenigol ychwanegol; ○ newidiadau i'r trefniadau staffio arferol neu'r lefelau fel maent wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben sy'n bodoli'n barod. <ul style="list-style-type: none"> • Os bwriedir newid y gwasanaeth mabwysiadu a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar unwaith, hynny yw o fewn y cyfnod hysbysu o 28 diwrnod (sy'n ofynnol dan reoliad 17(3)), bydd y darparwr: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn rhoi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth yn syth (a, lle bo hynny'n ymarferol, cyn rhoi'r newid ar waith); ○ yn diweddarau'r datganiad o ddiben yn ddi-oed i adlewyrchu'r newid, ac yn rhoi copi i reoleiddiwr y gwasanaeth. • Lle cynigir newid i'r datganiad o ddiben, mae'r darparwr gwasanaeth yn rhoi i reoleiddiwr y gwasanaeth unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallai fod arno ei hangen i'w fodloni ei hun ei fod yn gallu darparu'r gwasanaethau a gynigir. • Os caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddarau, cedwir cofnod o'r fersiwn a'r dyddiad diwygio. • Mae copi o'r datganiad o ddiben ar gael yn hwylus i'r rhai a restrir yn rheoliad 17(6).
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 18	Cod Ymarfer
<p>Gofynion mewn perthynas â monitro a gwella</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu.</p> <p>(2) Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau—</p> <p>(a) unigolion;</p> <p>(b) unrhyw gynrychiolwyr, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant y person hwnnw;</p> <p>(c) unrhyw awdurdod lleol arall neu awdurdod lleol yn Lloegr sydd wedi trefnu bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu darparu gan y gwasanaeth;</p> <p>(d) unrhyw berson sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth, mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth a sut y gellir gwella hyn.</p> <p>(3) Wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) ystyried safbwyntiau'r personau hynny yr ymgynghorir â hwy yn unol â pharagraff (2); a</p> <p>(b) rhoi sylw i'r adroddiad ar ansawdd y gofal a lunnir gan yr unigolyn cyfrifol yn unol â rheoliad 58 (adolygiad o ansawdd y gofal).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y darparwyr gwasanaethau systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd eu gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys nodi: <ul style="list-style-type: none"> ○ pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn cael ei wneud; ○ sut y bydd hyn yn cael ei wneud; ○ pa mor aml y mae hyn yn digwydd; ○ sut y caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl i brif swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdodau lleol a'u hystyried ganddynt. • Mae canlyniad unrhyw adolygiad yn cael ei ddadansoddi a'i adolygu gan bobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd priodol i ddeall ei arwyddocâd ac i gymryd camau i sicrhau bod pethau'n gwella. Mae darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn ceisio cyngor proffesiynol/arbenigol yn ôl yr angen ac yn brydlon i helpu i sicrhau gwelliannau. • Mae darparwyr gwasanaethau yn gallu dangos sut maent: <ul style="list-style-type: none"> ○ wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd ac ymateb iddi; ○ wedi defnyddio'r wybodaeth i wella pethau. • Mae darparwyr gwasanaethau yn monitro'r cynnydd o'i gymharu â chynlluniau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn cymryd camau priodol ar unwaith oni lwyddir i sicrhau'r cynnydd disgwylidig. • Mae'r systemau a'r prosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn galluogi'r darparwr gwasanaeth i weld

	<p>ymhle y mae neu y gallai rhywbeth amharu ar ansawdd a/neu ddiogelwch gwasanaethau ac i alluogi ymateb prydlon priodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fel rhan o'r broses adolygu ansawdd, mae darparwyr gwasanaeth: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn annog adborth; ○ yn ceisio barn unogolion yn rheolaidd am ansawdd gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol; ○ yn gallu dangos eu bod wedi gwneud hyn, a pha fath o adborth y maent wedi'i gael. • Mae'r dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r rhai a restrir yn rheoliad 18(2) sy'n defnyddio gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu cyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion cyfathrebu sydd ganddynt. • Mae'r wybodaeth a gesglir drwy'r systemau ansawdd ac archwilio yn cael ei defnyddio i ddatblygu adroddiad yr adolygiad o ansawdd y gwasanaeth yn unol â rheoliad 74(4).
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 19	Cod Ymarfer
<p>Gofynion mewn perthynas â rheolwr yr awdurdod lleol</p> <p>(1) Rhaid i bob darparwr gwasanaeth benodi un o'i swyddogion i fod yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth mabwysiadu.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i'r rheoleiddiwr gwasanaethau—</p> <p>(a) o enw'r person a benodir yn rheolwr; a</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddi-oed fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliad.

<p>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau yn ysgrifenedig os yw'r person a benodir o dan baragraff (1) yn peidio â rheoli'r gwasanaeth.</p>	
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Rheoliad 20	Cod Ymarfer
<p>Gofynion o ran addaswydd ar gyfer penodi rheolwr</p> <p>(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth benodi person i reoli'r gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.</p> <p>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 40(2) (addaswydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau addas ar waith i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol; ○ bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru; ○ bod y rheolwr yn brofiadol o wrth ddarparu gwasanaeth mabwysiadu; ○ bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys y gwiriadau perthnasol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth i sicrhau'r prif swyddog bod yr unigolyn yn addas ac yn alluog i weithio gyda phlant.
Rheoliad 21	Cod Ymarfer
<p>Gofynion mewn perthynas â'r rheolwr</p> <p>(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth sicrhau bod y person sydd wedi ei benodi'n rheolwr—</p> <p>(a) yn cael ei gefnogi i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a</p> <p>(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y rheolwr yn cydymffurfio â gofynion Rhan 17 (dyletswyddau i'w cyflawni gan reolwr yr awdurdod lleol) o'r Rheoliadau hyn.</p> <p>(3) Os bydd gan y darparwr gwasanaeth reswm dros gredu nad yw'r rheolwr wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhan 17, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i sicrhau y</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i gynnal trafodaethau ffurfiol a rheolaidd â'r rheolwr, ac i roi cymorth iddo. • Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi cymorth i'r rheolwr ddilyn hyfforddiant sy'n ei alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol a chyflawni nodau gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol fel y maent wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben ac yn unol â'r canllawiau ymarfer a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyfforddiant ar gyfer unigolion cyfrifol yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ fframwaith deddfwriaethol a gofynion; ○ dyletswyddau penodol unigolyn cyfrifol; ○ perfformiad gwasanaeth a rheoli ansawdd;

<p>cydymffurfir â'r gofyniad.</p> <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr sydd wedi ei benodi neu pan yw'r rheolwr yn absennol o'r gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ llywio diwylliant gwasanaeth, etc. ● Os na fydd rheolwr yn ei le, neu os nad yw'r rheolwr yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau am ba reswm bynnag (er enghraifft am ei fod yn absennol o'i rôl oherwydd salwch), bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod trefniadau ar waith i reoli gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol tra bydd y swydd yn wag.
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 22	Canllawiau
<p>Dyletswydd gonestrwydd</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) unigolion sy'n cael gofal a chymorth; (b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny. 	<ul style="list-style-type: none"> ● Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisiau a gweithdrefnau sy'n hybu diwylliant o fod yn agored a thryloyw, ac sy'n sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol ohonynt ac yn eu dilyn. Mae'r rhain yn unol â chanllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn cymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth. Canllawiau ydynt ar y ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. ● Mae darparwyr gwasanaethau yn hyrwyddo diwylliant o onestrwydd sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod yn agored ac yn onest ac ymgysylltu â'r rhai sydd wedi'u rhestru yn rheoliad 22(a) a (b); ○ darparu gwybodaeth am unrhyw ddiwyddiadau perthnasol ac am ganlyniad unrhyw ymchwiliadau sydd wedi'u cynnal; ○ cynnig ymddiheuriad am yr hyn sydd wedi digwydd, lle bo'n briodol gwneud hynny. ● Mae darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau i atal ac i ddelio'n briodol â bwlio, erledigaeth a/neu aflonyddu mewn

	<p>perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd, ac yn ymchwilio i unrhyw achosion lle gallai aelodau etholedig, uwch swyddogion (yr awdurdod lleol) neu unrhyw aelod o'r staff fod wedi rhwystro rhywun arall wrth iddo arfer ei ddyletswydd gonestrwydd.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae gan ddarparwyr gwasanaethau system ar waith i ganfod ac i ddelio ag achosion posibl o fynd yn groes i'r ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd gan staff sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol, gan gynnwys rhwystro rhywun arall wrth iddo arfer ei ddyletswydd broffesiynol o onestrwydd. Mae'r camau i fynd i'r afael ag achosion o'r fath yn cynnwys, lle bo'n briodol, atgyfeirio at y rheoleiddiwr proffesiynol neu gorff perthnasol arall.
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Pennod 3: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu – gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol (Rhannau 5 i 8 o'r Rheoliadau)

Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol.

Mae rhannau 5 i 8 o'r Rheoliadau'n nodi'r ffordd y mae darparwyr gwasanaethau yn darparu eu gwasanaethau mabwysiadu mewn perthynas â'r canlynol:

- Gofynion cyffredinol yn ymwneud â diogelu, darparu gwybodaeth, bodloni anghenion iaith a chyfathrebu'r unigolyn a thrin unigolion gyda pharch a sensitifrwydd. Mae hyn hefyd yn nodi'r gofyniad i gadw cofnodion.
- Telerau ac amodau'r gwasanaeth.
- Polisiâu, gweithdrefnau a safonau eraill y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu eu rhoi ar waith.
- Gofynion yn ymwneud â safleoedd, cyfleusterau a chyfarpar.
- Staffio, gan gynnwys niferoedd digonol o staff ac addasrwydd unigolion sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae hyn hefyd yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â chefnogi a datblygu staff, darparu gwybodaeth i staff a gweithredu gweithdrefn ddisgyblu addas.

Gofynion Cyffredinol (Rhan 5)

Rheoliad 23	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Diogelu - gofyniad cyffredinol</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Pan fyddant yn dechrau defnyddio'r gwasanaeth, caiff unigolion wybodaeth ynghylch diogelu a sut i leisio pryder, a chânt wybod fod cymorth ar gael i'w galluogi i wneud hynny.• Gall staff ac unigolion gael gafael ar bolisi a gweithdrefnau diogelu sydd wedi'u diweddarau.• Yn ystod eu cyfnod sefydlu, bydd staff yn cael hyfforddiant perthnasol i'w rôl i ddeall diogelu ac amddiffyn unigolion agored i niwed.

- Mae'r staff yn cael eu hyfforddi'n gyson yn unol â'r argymhellion diogelu lleol.
- Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol am leisio pryder er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi cymorth i staff sydd am leisio pryder ynghylch diogelu (chwythu'r chwiban).
- Mae darparwyr gwasanaethau yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill ac yn rheoli'r risg i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae cofnodion ynghylch atgyfeiriadau a chanlyniadau diogelu'n cael eu cadw er mwyn gallu goruchwylio diogelu o fewn y gwasanaeth a chraffu arno. Rhaid i'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r gwaith o ddiogelu unigolion agored i niwed, a rhaid i hynny ddigwydd o fewn y strwythur llywodraethu gan sefydlu trefniadau goruchwylio ar lefel y bwrdd / prif swyddog.
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod canlyniadau sy'n codi wrth atgyfeirio unrhyw achos yn ymwneud â diogelwch yn cael ei gyfleu i'r unigolyn mewn dull sy'n briodol i'w oed, lefel ei ddealltwriaeth ac sy'n ystyried ei gyflwr penodol ac unrhyw anghenion cyfathrebu sydd ganddo.

Rheoliad 24	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gwybodaeth am y gwasanaeth</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth lunio canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth.</p> <p>(2) Rhaid i'r canllaw—</p> <p>(a) cael ei ddyddio, ei adolygu o leiaf bob blwyddyn a'i ddiweddarau fel y bo angen;</p> <p>(b) bod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu;</p> <p>(c) cael ei roi i unrhyw unigolyn sy'n cael gofal a chymorth;</p> <p>(d) cael ei roi ar gael i eraill ar gais, oni bai nad yw hyn yn briodol neu y byddai'n anghyson â llesiant unigolyn.</p> <p>(3) Rhaid i'r canllaw gynnwys gwybodaeth am—</p> <p>(a) sut i godi pryder neu wneud cwyn;</p> <p>(b) argaeledd gwasanaethau eirioli.</p> <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r rhai a restrir yn rheoliad 24(2)(c), ac yn rheoliad 24(2)(d) lle bo hynny'n briodol, yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth. • Mae'r canllaw mewn iaith syml ac ar fformat sy'n adlewyrchu anghenion, oed a lefel dealltwriaeth y sawl y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer. Mae'r canllaw ar gael mewn fformatau a thrwy gyfryngau sydd ar gael yn hwylus ac yn briodol i'r gynulleidfa. Er enghraifft, iaith briodol ac iaith o ddewis yr unigolyn, print mawr, sain, cymhorthion cyfrifiadurol a gweledol. Os bydd gofyn, caiff ei esbonio gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu a ffefrir gan yr unigolyn. • Os bydd gofyn, rhoddir cymorth i unigolion ddeall cynnwys y canllaw a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy. • Mae'r canllaw yn rhestru'r meysydd sy'n ofynnol o dan reoliad 24(3) a bydd hefyd yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ trefniadau ar gyfer croesawu a chefnogi unigolion, a rhan y gofalwyr lle bo hynny'n berthnasol; ○ ethos, diwylliant a blaenoriaethau'r gwasanaeth - gan gynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben; ○ gwybodaeth am y broses fabwysiadu a'r amserlenni cysylltiedig, lle bo hynny'n berthnasol; ○ gwybodaeth am 'maethu i fabwysiadu'; ○ gwybodaeth am y broses ar gyfer cael cymorth mabwysiadu, lle bo hynny'n briodol; ○ sut i gael gafael ar yr adroddiad arolygu diweddaraf a luniwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth; ○ y staff allweddol a fydd yn rhoi cymorth i'r unigolyn;

	<ul style="list-style-type: none"> ○ sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol neu reolwr; gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdod lleol; ○ y weithdrefn gwyno a sut y mae gwneud cwyn; ○ manylion cyswllt a rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rheoleiddiwr y gwasanaeth, y Comisiynydd Plant (fel y bo'n briodol); ○ gwybodaeth am yr hawl i blant sy'n derbyn gofal gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol; ○ trefniadau ar gyfer cyfrannu barn am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg; ○ ffioedd – ystod, unrhyw ffioedd neu gostau ychwanegol y mae gofyn i'r unigolyn eu talu, y dull talu, hysbysu am gynnydd yn y gost; ○ telerau ac amodau, gan gynnwys yr amgylchiadau lle gellid rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth, a'r cyfnodau hysbysu ar gyfer hynny; ○ sut y gall unigolion gael gafael ar eu cofnodion eu hunain.
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 25	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Cytundeb gwasanaeth</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y rhoddir i bob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth gopi wedi ei lofnodi o unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r unigolyn; (b) unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir i'r unigolyn. <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod yr unigolion yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir mewn unrhyw gytundeb o'r fath.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael copi o unrhyw gytundeb, ynghyd â'r canlynol lle bo'n briodol: <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth am y costau sy'n daladwy gan yr unigolyn; costau eraill y bydd yr awdurdod lleoli yn eu talu; a thelerau ac amodau'r gwasanaeth, gan gynnwys terfynu contractau a'r cyfnod hysbysu, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth; ○ yr wybodaeth sy'n rhoi manylion am y gwasanaeth unigol sydd i'w ddarparu.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi amcangyfrif ysgrifenedig o gostau wythnosol y gofal a'r cymorth sydd i'w talu gan yr unigolyn, ar fformat sy'n hygyrch i'r unigolyn ac yn addas i'w hoed a lefel eu dealltwriaeth. Mae hwn yn cynnwys manylion unrhyw gostau ychwanegol sy'n debygol.
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 26	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gwybodaeth</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan unigolion yr wybodaeth y mae ei hangen arno i wneud neu gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddo a sut y mae'n cael ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol.</p> <p>(2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod ar gael yn yr iaith, yr arddull, y cyflwyniad a'r fformat priodol, gan roi sylw i—</p> <p>(a) natur y gwasanaeth fel y'i disgrifir yn y datganiad o ddiben;</p> <p>(b) lefel dealltwriaeth yr unigolyn a'i allu i gyfathrebu;</p> <p>(c) yn achos plentyn, oedran y plentyn.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w alluogi i ddeall yr wybodaeth a ddarperir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unigolion yn gallu gwneud penderfyniadau am eu bywydau ac yn cael cymorth i wneud hynny lle bo angen. • Mae unigolion yn cael y cyfle, ac yn cael eu galluogi, i gyfrannu eu barn am y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. • Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi trefniadau ar waith i alluogi unigolion i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth perthnasol neu grwpiau hunan-eiriolaeth (os ydynt yn dymuno) a chymorth â'u hanghenion cyfathrebu, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau am eu bywydau. • Mae darparwyr gwasanaethau yn rhoi trefniadau ar waith i alluogi unigolion i ddeall yr wybodaeth a ddarperir. • Lle bo gwybodaeth ar gael am blant sydd angen teuluoedd yn lleol, caiff yr wybodaeth hon ei darparu'n brydlon ac mewn ffordd glir a chywir.

Rheoliad 27	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Iaith a chyfathrebu</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith unigolyn.</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau y darperir mynediad i unrhyw gymhorthion a chyfarpar sy'n angenrheidiol i unigolyn i hwyluso'r ffordd y mae'r unigolyn yn cyfathrebu ag eraill.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i gynorthwyo unigolion â'u hanghenion iaith a chyfathrebu penodol yn unol â'r datganiad o ddiben. Lle bo angen, bydd hyn yn cynnwys rhoi camau ar waith i sicrhau bod unigolion yn gallu cyfathrebu'n ystyron . Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Yr iaith y mae'r unigolion angen ei defnyddio ac yn dewis ei defnyddio; ○ dulliau cyfathrebu ychwanegol lle bo'n briodol, megis y System Gyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS), Triniaeth ac Addysg Blant Awtistig a Phlant sydd ag anfantais gysylltiedig â Chyfathrebu (TEACCH), Makaton, Iaith Arwyddion Prydain (BSL). • Mae darparwyr gwasanaethau yn nodi anghenion cyfathrebu unigolyn wrth benderfynu a all y gwasanaeth mabwysiadu ddiwallu ei anghenion. • Gall unigolion ddeall staff pan fyddant yn cyfathrebu â hwy • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod y cymhorthion a'r cyfarpar sydd eu hangen i gefnogi anghenion cyfathrebu'r unigolion ar gael, yn hygyrch, yn cael eu cynnal a'u cadw a bod y staff yn gwybod sut i'w defnyddio. • Mae darparwyr gwasanaethau yn cynnig, neu'n gweithio tuag at gynnig, eu gwasanaeth yn Gymraeg i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

Rheoliad 28	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Parch a sensitifrwydd</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unigolion yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.</p> <p>(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i—</p> <p>(a) parchu preifatrwydd ac urddas yr unigolyn;</p> <p>(b) parchu hawliau'r unigolyn i gyfrinachedd;</p> <p>(c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth yr unigolyn;</p> <p>(d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yr unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unigolion: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn cael eu clywed a bod y staff yn cyfathrebu â nhw mewn ffordd gwrtais sy'n dangos parch, ac mai eu gofal a'u cymorth nhw yw prif ganolbwynt sylw'r staff; ○ yn cael eu trin â pharch a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod systemau ar waith i ymateb yn brydlon i geisiadau unigolion sydd wedi'u heffeithio gan fabwysiadu, ac i weithio gyda nhw. Dangosir parch bob amser at eu cefndir ethnig, eu crefydd, eu diwylliant, eu hiaith, eu rhywioldeb, eu rhywedd a'u hanabledd, a'u profiad a'u dealltwriaeth o fabwysiadu.
Rheoliad 29	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Safonau gofal a chymorth – gofynion cyffredinol</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth mewn ffordd—</p> <p>(a) sy'n cynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion a staff; a</p> <p>(b) sy'n annog ac yn cynorthwyo staff i gynnal perthnasoedd personol a phroffesiynol da ag unigolion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dull gweithredu'r darparwr gwasanaeth o ran safonau gofal a chymorth wedi'i nodi'n glir yn y datganiad o ddiben. • Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cefnogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. • Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredoll; ac yn adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ymatebol ac yn rhagweithiol wrth nodi a lliniaru risgiau. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau eu bod yn ceisio

cyngor meddygol a chymorth proffesiynol i unigolyn (lle bo hynny'n briodol) neu'n gwneud atgyfeiriad at y comisiynwyr mewn modd amserol.

- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu'n unol ag unrhyw gynllun gofal a chymorth, cynllun mabwysiadu a/neu gynllun lleoliad mabwysiadu, eu bod yn diwallu anghenion yr unigolyn a'u bod yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol mewn perthynas â:
 - llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol;
 - dewisiadau diwylliannol, crefyddol, cymdeithasol neu ysbrydol;
 - anghenion o ran addysg, hyfforddiant a hamdden;
 - perthnasoedd personol a theuluol;
 - rheolaeth dros fywyd bob dydd a, lle bo hynny'n berthnasol, cyfranogi mewn gwaith;
 - datblygiad deallusol, emosiynol ac ymddygiadol;
 - hawliau a hawlogaethau, yn enwedig mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
 - amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Dyma enghreifftiau o hyn:

- Mae plant yn cael eu cyflwyno i'w darpar fabwysiadwyr mewn modd sensitif, gyda chynllunio gofalus ac ystyriol sy'n hybu ymlyniad. Pan fydd amgylchiadau heb eu cynllunio yn golygu bod rhaid i blant symud o un lleoliad i un arall, lles a llesiant y plant fydd flaenaf o hyd, a bydd staff yr asiantaeth yn cadw hyn mewn cof drwy'r amser.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae plant ac oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael cefnogaeth i reoli unrhyw deimladau cymysg ac anodd sydd ganddynt. • Mae plant ac oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn meithrin perthynas gadarnhaol â'r mabwysiadwyr a'r staff. Mae ffiniau clir, cyson a phriodol i blant. • Mae plant yn cael cyswllt priodol (yn uniongyrchol a/neu'n anuniongyrchol) gyda chefnogaeth - a'r cyswllt wedi'i asesu'n ofalus - â pherthnasau biolegol, gan gynnwys eu brodyr a'u chwiorydd a phobl eraill sy'n bwysig iddynt, fel gofalwyr blaenorol, os mai hynny sydd orau er eu lles. • Mae'r cymorth mabwysiadu parhaus yn sicrhau bod mabwysiadwyr a darpar fabwysiadwyr yn parhau i ddeall effaith bosibl camdriniaeth ac esgeulustod ar ymddygiad eu plentyn mabwysiedig wrth iddo dyfu'n hŷn, a bydd y cymorth yn eu helpu i ddarparu ymlyniadau sefydlog a chadarn. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i roi cymorth i fabwysiadwyr a darpar fabwysiadwyr ac i blant os bydd anawsterau o ran darparu gofal a chymorth.
--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 30	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gwrthdaro buddiannau</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau effeithiol yn eu lle i nodi, cofnodi a rheoli achosion posibl o wrthdaro buddiannau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn cynnal systemau priodol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwrthdaro gwirioneddol neu wrthdaro ymddangosiadol rhwng buddiannau'n cael eu nodi, eu hatal a'u cofnodi'n agored.

Rheoliad 31	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Cofnodion</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Atodlen 3.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyfredol;</p> <p>(b) cadw pob cofnod yn ddiogel;</p> <p>(c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau;</p> <p>(d) rhoi'r cofnodion ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gais;</p> <p>(e) cadw cofnodion sy'n ymwneud ag oedolion am 15 mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf;</p> <p>(f) cadw cofnodion sy'n ymwneud â phlant am 75 mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf, oni bai bod y cofnodion yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleoli yn unol ag is-baragraff (d);</p> <p>(g) sicrhau bod person sy'n cael gofal a chymorth gan y gwasanaeth—</p> <p>(i) yn gallu cael mynediad i'w gofnodion; a</p> <p>(ii) yn cael ei wneud yn ymwybodol ei fod yn gallu cael mynediad i'w gofnodion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer rheoli cofnodion. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ diben, fformat, cyfrinachedd a chynnwys ffeiliau, gan gynnwys storio diogel a mynediad at ffeiliau achos yn unol â'r rheoliadau; ○ trefniadau ar gyfer awdurdodi mynediad at gofnodion yr achos mabwysiadu ac awdurdodi datgelu gwybodaeth am fabwysiadu; ○ yr amgylchiadau lle gallai ddymuno trefnu bod cofnodion neu wybodaeth ar gael, o fewn ac oddi allan i'r gwasanaeth mabwysiadu, at ddibenion ei swyddogaethau fel gwasanaeth mabwysiadu; ○ sut y dylai staff ddelio â cheisiadau am fynediad neu ddatgeliad o'r fath, a phwy sy'n cael y grym i'w hawdurdodi; ○ y gofyn i'r darparwr gwasanaeth, cyn y gall drefnu bod cofnodion neu wybodaeth yn cael eu rhyddhau, gael cytundeb ysgrifenedig gan sawl y mae'r darparwr gwasanaeth yn dymuno datgelu'r cofnodion achos neu'r wybodaeth iddo y bydd yn eu cadw'n gyfrinachol. Nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys y plentyn na'r mabwysiadwr ond mae'n cynnwys unrhyw un arall o fewn neu oddi allan i'r darparwr gwasanaeth, hynny yw aelodau a gweithwyr y darparwr gwasanaeth ei hun ac aelodau o'i banel mabwysiadu. • Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi ac yn deall yn glir y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a rheoli cofnodion. Mae hyn

yn cynnwys hyfforddiant ym maes gwarchod gwybodaeth a'r camau i'w cymryd pan fydd risgl i wybodaeth bersonol gael ei pheryglu.

- Mae darparwyr gwasanaethau yn cadw'r holl gofnodion sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn unigolion a chynnal y gwasanaeth yn effeithlon yn unol â'r hyn a bennir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau.
- Mae pob cofnod yn cael ei gadw'n ddiogel, yn cael ei ddiweddarau a bydd trefn dda arno. Maent yn cael eu paratoi, eu cynnal a'u defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data a gofynion statudol eraill ac yn cael eu cadw am y cyfnod gofynnol fel y nodir yn rheoliad 31(2)(e)ac(f).
- Mae cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel, gan gynnwys cofnodion electronig o dan warchodaeth cyfrinair.
- Mae unigolion a staff yn cael gweld unrhyw gofnodion a'r wybodaeth a gedwir amdanynt gan y darparwr gwasanaeth mabwysiadu yn unol â gofynion cyfreithiol cyfredol.
- Mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol o'i ffeiliau achos, mewn modd amserol, i wasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig a gwasanaethau mabwysiadu awdurdod lleol eraill y mae'n gweithio gyda nhw i drefnu bod gofal a chymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer plentyn.

Polisiâu, gweithdrefnau a safonau eraill (Rhan 6)

Rheoliad 32	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gofynion i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â pholisiâu a gweithdrefnau</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau a ganlyn yn eu lle ar gyfer y gwasanaeth—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) cychwyn y gwasanaeth (rheoliad 7); (b) diogelu (rheoliad 33); (c) cwynion (rheoliad 34); (d) chwythu'r chwiban (rheoliad 35); (e) cefnogi a datblygu staff (rheoliad 41); (f) disgyblu staff (rheoliad 43). <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth hefyd gael unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau eraill yn eu lle sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi nodau ac amcanion y gwasanaeth mabwysiadu a nodir yn y datganiad o ddiben.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod cynnwys y polisiâu a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod yn eu lle yn rhinwedd paragraffau (1) i (2)—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) yn briodol i anghenion yr unigolion y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer; (b) yn gyson â'r datganiad o ddiben; ac (c) yn cael eu cadw'n gyfredol. <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu yn cael ei ddarparu yn unol â'r polisiâu a'r gweithdrefnau hynny.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau y polisiâu a'r gweithdrefnau yn eu lle fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau. • Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau yn gymesur â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben. • Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn cyd-fynd ag unrhyw ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol; ○ yn cynnig arweiniad i staff i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol â'r datganiad o ddiben; ○ yn pennu disgwyliadau i roi gwybod i unigolion sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. • Mae'r polisiâu, y gweithdrefnau a'r arferion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yng ngoleuni newidiadau i arferion, deddfwriaeth sy'n newid, ac argymhellion ynglŷn â'r arferion gorau. • Mae'r staff a'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael y cyfle i ymwneud â datblygu polisiâu a gweithdrefnau. • Os gwneir newidiadau i'r datganiad o ddiben, bydd y polisiâu a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod staff yn gallu

	<p>cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n eu cefnogi yn eu rôl, a'u bod yn gwybod amdanynt ac yn eu deall.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael ar gais i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, ac i'r awdurdod lleoli perthnasol a'r comisiynydd lle bo hynny'n berthnasol. • Mae systemau ar gyfer monitro a gwella'n cynnwys y rhai sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau.
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 33	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Polisïau a gweithdrefnau diogelu</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisïau a gweithdrefnau yn eu lle—</p> <p>(a) ar gyfer atal camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth amhriodol, a</p> <p>(b) ar gyfer ymateb i unrhyw honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol.</p> <p>(2) Yn y rheoliad hwn, cyfeirir at bolisïau a gweithdrefnau o'r fath fel polisïau a gweithdrefnau diogelu.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod ei bolisïau a'i weithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p> <p>(4) Yn benodol, pan fo honiad neu dystiolaeth o gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth amhriodol, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) gweithredu yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu;</p> <p>(b) cymryd camau gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi a gweithdrefn ddiogelu ar waith. • Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau cenedlaethol a gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan / lleol. • Mae'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu'n cynnwys rolau unigol a chyfrifoldebau staff neu bobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth, o ran cael a rhoi gwybod am honiadau o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol neu amheuaeth o gam-drin, esgeulustod neu driniaeth amhriodol. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'r staff am y camau i'w cymryd a'r mecanweithiau ar gyfer atgyfeirio at yr awdurdod lleol ac at bartneriaid ac asiantaethau perthnasol eraill. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hysbysu am eu hawl i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o dan Ddeddf 2014.

- pob plentyn y darperir gofal a chymorth ar ei gyfer;
- (c) gwneud atgyfeiriadau priodol i asiantaethau eraill; a
- (d) cadw cofnod o unrhyw dystiolaeth neu sylwedd unrhyw honiad, unrhyw gamau gweithredu a gymerir ac unrhyw atgyfeiriadau a wneir.

Rheoliad 34	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Polisi a gweithdrefn gwyno</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi cwyno yn ei le a sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu yn cael ei weithredu yn unol â'r polisi hwnnw.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion, gan gynnwys trefniadau ar gyfer—</p> <p>(a) nodi cwynion ac ymchwilio iddynt;</p> <p>(b) rhoi ymateb priodol i berson sy'n gwneud cwyn, os yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r person hwnnw;</p> <p>(c) sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn dilyn ymchwiliad; a</p> <p>(d) cadw cofnodion sy'n ymwneud â'r materion yn is-baragraffau (a) i (c).</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu crynodeb o gwynion, ymatebion ac unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerir i'r rheoleiddiwr gwasanaethau o fewn 28 o ddiwrnodau i gael cais i wneud hynny.</p> <p>(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion a phryderon; a</p> <p>(b) gan roi sylw i'r dadansoddiad hwnnw, nodi unrhyw feysydd i'w gwella.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau bolisi cwynion hawdd ei defnyddio sy'n cynnwys cam datrys anffurfiol, a bydd yn esbonio: <ul style="list-style-type: none"> ○ pwy all wneud cwyn ac mewn perthynas â beth; ○ at bwy y dylid mynd i drafod pryder/cwyn; ○ sut y gellir cefnogi unigolion i wneud cwyn; ○ gwybodaeth am gael eiriolaeth annibynnol, os yw ar gael; ○ sut yr ymdrinnir â chwynion; ○ camau ac amserlenni'r broses; ○ sut i uwchgyfeirio pryder/cwyn at yr awdurdod comisiynu, y Comisiynydd Plant a/neu reoleiddiwr y gwasanaeth. • Mae'r polisi a'r gweithdrefnau mewn fformat hawdd ei ddarllen, wedi'i hysbysebu'n dda, ar gael yn hwylus ac yn hygyrch i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd, pobl eraill sy'n bwysig yn eu bywydau, ymwelwyr, staff a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth. • Mae modd i unigolion gyflwyno'u cwynion yn ysgrifenedig neu ar lafar i'r staff, a dylai'r cwynion gael eu cydnabod oni bai eu bod yn cael eu gwneud yn ddiennw.

- Mae staff yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau cwyno ac yn eu deall.
- Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau effeithiol ar waith i ddelio â chwynion.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw sylw neu gŵyn yn cael ei chydnabod, yr ymdrinnir â hi'n ddi-oed a bod y sawl sy'n cwyno yn cael gwybod beth yw hynt y broses.
- Mae'r sawl sy'n cwyno yn cael adroddiad ysgrifenedig yn nodi canlyniad y gŵyn ac unrhyw gam gweithredu sydd i'w gymryd.
- Rhaid sicrhau cydsyniad a chynnal cyfrinachedd drwy gydol y broses gwyno oni bai fod rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, er enghraifft rhai'n ymwneud â diogelu.
- Ni fydd unigolion yn dioddef gwahaniaethu nac anfantais ac ni fyddant yn colli gwasanaeth neu'n cael llai ohono oherwydd eu bod wedi cyflwyno sylwadau neu gwynion.
- Mae systemau ar waith i wneud yn siŵr yr ymchwiliwr i bob cwyn yn unol â'r amserlenni a nodir ym mholisi cwynion y darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys:
 - cynnal adolygiad i sefydlu lefel yr ymchwiliad a'r camau gweithredu sydd eu hangen ar unwaith, gan gynnwys atgyfeirio'r achos i'r awdurdodau priodol i ymchwilio iddo. Gall hyn gynnwys rheoleiddiwr y gwasanaeth neu dimau diogelu'r awdurdod lleol.

	<ul style="list-style-type: none"> ○ os nodir meysydd i'w gwella neu fethiannau yn y gwasanaeth, gweithredu ar hynny ar unwaith. • Mae gan y staff ac eraill sy'n ymwneud ag ymchwilio i gwynion y lefel briodol o wybodaeth a sgiliau i wneud hyn. • Mae cofnodion o gwynion yn cael eu cynnal a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle gallai fod angen gweithredu. • Mae'r camau a gymerir mewn ymateb i gwynion yn cael eu cofnodi mewn adroddiad fel rhan o drefniadau llywodraethu'r gwasanaeth.
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 35	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Chwythu'r chwiban</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod pob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) yn gallu codi pryderon am faterion a all effeithio'n andwyol ar iechyd, diogelwch neu lesiant personau y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer.</p> <p>(2) Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys—</p> <p>(a) cael polisi chwythu'r chwiban yn ei le a gweithredu yn unol â'r polisi hwnnw; a</p> <p>(b) sefydlu trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau sy'n ofynnol o dan y rheoliad hwn yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi a gweithdrefn chwythu'r chwiban ar waith. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ y drefn ar gyfer mynegi pryder; ○ y dulliau diogelu sydd ar waith ar gyfer staff sy'n mynegi pryder; ○ sut yr ymchwilir i bryderon. • Mae staff yn gwybod sut mae mynegi pryderon ac wedi cael hyfforddiant ar sut mae gwneud hynny, a bydd mecanweithiau a chymorth ar gael i'w galluogi i wneud hyn. • Mae cydsyniad a chyfrinachedd yn cael eu sicrhau drwy gydol y broses ymchwilio oni fydd rhwymedigaethau proffesiynol neu statudol sy'n golygu na fyddai hyn yn bosibl, megis y rhai sy'n ymwneud â diogelu.

<p>(4) Pan godir pryder, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau— (b) yr ymchwilir i'r pryder, (c) y cymerir camau priodol yn dilyn ymchwiliad, ac (d) y cedwir cofnod sy'n ymwneud â'r materion yn is-baragraffau (a) i (b).</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd y staff na'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn wynebu unrhyw wahaniaethu nac anfantais yn sgil mynegi eu pryderon. Caiff cofnodion o bryderon eu cadw a'u monitro i nodi tueddiadau a meysydd risg lle y gallai fod angen cymryd camau gweithredu. Mae gofyn i gamau a gymerir wrth ymateb i chwythu'r chwiban gael eu cofnodi fel rhan o'r trefniadau llywodraethu.
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Mangreoedd (safleoedd), cyfleusterau a chyfarpar Rhan 7)

Rheoliad 36	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gofyniad cyffredinol</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y mangreoedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn addas ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae lleoliad, cynllun a maint y safle yn addas ar gyfer y gwasanaeth a ddisgrifir yn y datganiad o ddiben.
Rheoliad 37	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Digonolrwydd mangreoedd</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gan y mangreoedd a ddefnyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth mabwysiadu gyfleusterau digonol ar gyfer— (a) goruchwyllo staff; (b) storio cofnodion yn ddiogel.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan ddarparwyr gwasanaethau lle addas yn y safle, megis ystafell gyfarfod a rennir, i sicrhau preifatrwydd ar gyfer goruchwyllo staff. Mae cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol.

Rheoliad 38	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Cyfleusterau a chyfarpar</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y cyfleusterau a'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth—</p> <p>(a) yn addas ac yn ddiogel i'r diben y bwriedir iddynt gael eu defnyddio ato;</p> <p>(b) yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel;</p> <p>(c) yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol;</p> <p>(d) yn cael eu cadw'n lân yn unol â safon sy'n briodol i'r diben y maent yn cael eu defnyddio ato;</p> <p>(e) yn cael eu storio'n briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cyfleusterau, y ffitiadau, yr addasiadau a'r cyfarpar ar gael i gyflawni nodau ac amcanion y datganiad o ddiben. • Caiff y cyfarpar ei ddefnyddio at y diben y bwriadwyd ef, a dim ond ar gyfer yr unigolyn y darparwyd ef ar ei gyfer. • Ymgynghorir â'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y cyfleusterau, y gwasanaethau a'r cyfarpar a ddarperir gan y gwasanaeth ar eu rhan. Lle bo modd, bydd dewisiadau a hoffterau'r unigolyn yn cael eu parchu, a gweithredir ar sail hynny.

Staffio (Rhan 8)

Rheoliad 39	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Staffio - gofynion cyffredinol</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau ar bob adeg fod nifer digonol o staff sydd â'r cymwysterau, yr hyfforddiant, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad addas yn cael eu defnyddio i weithio yn y gwasanaeth mabwysiadu, gan roi sylw—</p> <p>(a) i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth;</p> <p>(b) i anghenion gofal a chymorth unigolion;</p> <p>(c) i'r angen i gefnogi unigolion i gyflawni eu canlyniadau personol;</p> <p>(d) i'r angen i ddiogelu a hybu iechyd a lles plant; ac</p> <p>(e) i ofynion y Rheoliadau hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ddull mesuradwy, systematig amlwg i bennu nifer y staff a'r ystod o sgiliau/cymwysterau sy'n ofynnol i ddarparu gofal a chymorth dibynadwy sy'n diwallu anghenion unigolion ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae hyn yn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y datganiad o ddiben; ○ anghenion gofal a chymorth unigolion. • Mae'r lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau yn cael eu hadolygu'n gyson a'u haddasu i ymateb i newidiadau mewn anghenion.

	<ul style="list-style-type: none"> Mae trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu'n briodol.
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 40	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Addasrwydd staff</p> <p>(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth— (a) cyflogi person o dan gontract cyflogaeth i weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny; caniatáu i wirfoddolwr weithio yn y gwasanaeth oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny; (b) caniatáu i unrhyw berson arall weithio yn y gwasanaeth mabwysiadu mewn swydd y gall, yng nghwrs ei ddyletswyddau, gael cysylltiad rheolaidd ynddi ag unigolion sy'n cael gofal a chymorth neu â phersonau hyglwyf eraill oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.</p> <p>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i weithio yn y gwasanaeth mabwysiadu oni bai— (a) bod y person yn addas o ran ei uniondeb ac o gymeriad da; (b) bod gan y person y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwysedd a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w wneud; (c) bod y person oherwydd ei iechyd, ar ôl i addasiadau rhesymol gael eu gwneud, yn gallu cyflawni'n briodol y tasgau sy'n rhan annatod o'r gwaith y mae wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar ei gyfer; (d) bod y person wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a bodddhaol, yn ôl y digwydd, mewn cysylltiad â phob un o'r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 2 a bod yr wybodaeth hon neu'r ddogfennaeth hon ar gael yn y gwasanaeth i'r</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan ddarparwyr gwasanaethau systemau dethol a fetio trwyadl ar waith er mwyn iddynt allu penderfynu a ddylai unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr gael ei benodi ai peidio. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth sydd yn atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau cywirdeb geirdaon a chofnodion cyflogaeth flaenorol. Os defnyddir staff asiantaeth, bydd darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod yr un gwiriadau'n cael eu cynnal ar eu cyfer ag a gynhelir ar gyfer staff a gyflogir yn barhaol, a bydd ganddynt dystiolaeth i ddangos bod y gwiriadau hyn wedi'u gwneud. Gallai hyn gynnwys cadarnhad a rhestrau gwirio a ddarperir gan unrhyw asiantaeth. Rhoddir ystyriaeth gadarnhaol i gynnwys yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth recriwtio staff newydd. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau broses ar waith i wirio bod gan staff gofrestrriad priodol a chyfredol â rheoleiddiwr proffesiynol os oes gofyn, neu eu bod ar gofrestr wirfoddol achrededig lle bo hynny'n berthnasol. Wedi ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, dylai darparwyr gwasanaethau benderfynu a oes gan yr unigolyn y sgiliau, y cymwysterau a'r cymeriad angenrheidiol i

rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni;

(e) pan fo'r person wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth, fod y person wedi ei gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol â Gofal Cymdeithasol Cymru.

(3) Rhaid i gais gael ei wneud ar gyfer y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 2 (y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn fel tystysgrif GDG) gan neu ar ran y darparwr gwasanaeth, at ddiben asesu addasrwydd person ar gyfer y swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r person sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (y cyfeirir ato yn y rheoliad hwn fel gwasanaeth diweddarau'r GDG).

(4) Pan fo person sy'n cael ei ystyried ar gyfer swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person at ddiben asesu addasrwydd y person hwnnw ar gyfer y swydd honno.

(5) Pan fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wirio statws tystysgrif GDG y person o leiaf bob blwyddyn.

(6) Pan na fo person a benodir i swydd y cyfeirir ati ym mharagraff (1) wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddarau'r GDG, rhaid i'r darparwr gwasanaeth wneud cais am dystysgrif GDG newydd mewn cysylltiad â'r person hwnnw o fewn tair blynedd i ddyroddi'r dystysgrif y gwneir cais amdani yn unol â pharagraff (3) ac wedi hynny, rhaid i geisiadau pellach o'r fath gael eu gwneud o leiaf bob tair blynedd.

(7) Os nad yw person sy'n gweithio yn y gwasanaeth mabwysiadu yn addas i weithio yn y gwasanaeth mwyach o ganlyniad i beidio â bodloni un neu ragor o'r gofynion ym mharagraff (2), rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

gyflawni'r rôl y mae'n cael ei gyflogi/ei roi ar waith i'w chyflawni.

- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod unrhyw berson nad oes gofyn iddo gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ond a fydd yn ymwneud ag unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, wedi cael eu gwirio yn unol â'r gofynion a nodir yn rheoliad 40(2)(a)-(d).
- Os na fydd staff yn cyflawni'r meini prawf addasrwydd a nodir yn rheoliad 40(2) mwyach, bydd y darparwyr gwasanaethau yn cymryd camau priodol yn ddi-oed i sicrhau na fydd risg i unigolion. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
 - coetsio a mentora;
 - darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ychwanegol;
 - defnyddio gweithdrefnau disgyblu.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol a, lle bo hynny'n briodol, bydd darparwyr yn atgyfeirio achosion at y cyrff proffesiynol perthnasol yn achos staff lle mae amheuaeth ynghylch pa mor addas ydynt i ymarfer.
- Os oes unrhyw bryderon bod aelod o staff wedi cam-drin unigolyn neu wedi rhoi unigolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac unrhyw gorff cofrestru proffesiynol perthnasol yn cael gwybod yn ddi-oed gan y darparwr gwasanaeth.

<p>(a) cymryd camau gweithredu angenrheidiol a chymesur i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion perthnasol;</p> <p>(b) pan fo'n briodol, roi gwybod—</p> <p>(i) i'r corff rheoleiddiol neu broffesiynol perthnasol;</p> <p>(ii) i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p>	
----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Rheoliad 41	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Cefnogi a datblygu staff</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gael polisi yn ei le ar gyfer cefnogi a datblygu staff.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr)—</p> <p>(a) yn cael cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl;</p> <p>(b) yn cael ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a chyfrifoldebau staff eraill;</p> <p>(c) yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol;</p> <p>(d) yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith sydd i'w wneud ganddo;</p> <p>(e) yn cael hyfforddiant arbenigol fel y bo'n briodol;</p> <p>(f) yn cael cymorth a chynhorthwy i gael unrhyw hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'n ei wneud.</p> <p>(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y gwasanaeth mabwysiadu fel rheolwr yn cael ei gefnogi i gynnal ei gofrestrriad â Gofal Cymdeithasol Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod ganddynt raglen sefydlu sy'n rhoi'r adnoddau i bob aelod newydd o staff fod yn gymwys yn eu rôl a'u hymarfer. Mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. • Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cwblhau'r rhaglen sefydlu berthnasol sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen sydd wedi'i diffinio yn ogystal ag unrhyw feysydd sy'n benodol i'r gwasanaeth. • Mae staff yn gallu cael gafael ar gopiâu o unrhyw godau ymarfer proffesiynol perthnasol a chanllawiau ymarfer, gan gynnwys unrhyw rhai sydd wedi'i nodi gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r safonau sydd yn y codau a'r canllawiau ymarfer hyn yn cael eu hyrwyddo'n frwd. • Pan ddefnyddir staff asiantaeth, rhoddir cyflwyniad i'r gwasanaeth iddynt sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ y datganiad o ddiben; ○ polisiâu a gweithdrefnau craidd; ○ trefniadau rheoli.

- Mae staff yn cael eu goruchwyllo yn eu rôl i i'w helpu i bwysu a mesur eu hymarfer a sicrhau eu bod yn cynnal safon eu cymhwysedd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad gan unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Bob mis, bydd cyfarfod goruchwyllo un i un yn cael ei gynnal rhwng yr aelod staff a'i reolwr llinell neu swyddog cyfatebol, neu aelod uwch o staff,
- Mae pob aelod o staff yn cael ei harfarnu bob blwyddyn a bydd hynny'n gyfle i roi adborth am eu perfformiad ac i nodi meysydd lle bydd angen hyfforddiant a datblygu er mwyn eu cefnogi yn eu rôl.
- Mae staff yn cael cefnogaeth i ddilyn hyfforddiant, i ddysgu ac i ddatblygu, i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl.
- Mae staff yn cael cefnogaeth i ddilyn hyfforddiant, i ddysgu ac i ddatblygu, i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rôl a diwallu anghenion unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn dadansoddi'r anghenion hyfforddi bob blwyddyn (neu cyn hynny os bydd angen) er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymhwysedd perthnasol i ddiwallu anghenion unigolion yn unol â'r datganiad o ddiben.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl hyfforddiant a goruchwyliaeth – yr hyn sy'n ofynnol a'r hyn sydd wedi'i gwblhau.
- Mae darparwyr gwasanaethau yn cynorthwyo'r holl staff i

	<p>gwblhau, lle bo hynny'n briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ hyfforddiant craidd; ○ y cymwysterau angenrheidiol a fyddai'n eu galluogi i barhau i gyflawni eu rôl; ○ hyfforddiant a gweithgarwch gofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus; ○ hyfforddiant arall y tybir ei fod yn briodol gan y darparwr gwasanaeth; ○ hyfforddiant craidd ac arbenigol y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru'n nodi ei fod yn gyson â'u rôl.
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 42	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gwybodaeth ar gyfer staff</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau y darperir gwybodaeth i bob person sy'n gweithio yn y gwasanaeth mabwysiadu (gan gynnwys unrhyw berson y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr) am y gwasanaeth a'r ffordd y caiff ei ddarparu.</p> <p>(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle i wneud staff yn ymwybodol o unrhyw godau ymarfer ynghylch y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, y mae'n ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru eu cyhoeddi o dan adran 112(1)(a) o'r Ddeddf.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn casglu gwybodaeth ac yn ei darparu ar gyfer y staff yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y materion a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> ○ ethos a diwylliant; ○ yr ymddygiad a ddisgwylir gan staff neu weithwyr eraill; ○ rolau a chyfrifoldebau staff neu weithwyr eraill; ○ polisïau a gweithdrefnau; ○ y gofynion o ran cadw cofnodion; ○ cyfrinachedd a gofynion diogelu data; ○ gweithdrefnau disgyblu; ○ trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon; ○ trefniadau ar gyfer pobl sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain. • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar y copïau diweddaraf o'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chodau ymarfer, a'u bod yn eu deall. Maent yn sicrhau bod staff wedi darllen y rhain yn ystod y cyfnod

	<p>sefydlu ac yn profi eu dealltwriaeth drwy eu goruchwyllo ac adolygu eu perfformiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod staff yn cyflawni eu dyletswyddau'n unol â gofynion y polisïau a'r gweithdrefnau. • Mae'r holl staff yn cael disgrifiad swydd ysgrifenedig sy'n datgan eu cyfrifoldebau'n glir, y dyletswyddau y disgwyli'r iddynt eu cyflawni ar y pryd a'u llinell atebolrwydd. • Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd (o leiaf chwech bob blwyddyn). Maent yn cael eu cofnodi a bydd camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd yn eu sgil.
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 43	Canllawiau / Cod Ymarfer
<p>Gweithdrefnau disgyblu</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi gweithdrefn ddisgyblu yn ei lle a'i gweithredu.</p> <p>(2) Rhaid i'r weithdrefn ddisgyblu gynnwys—</p> <p>(a) darpariaeth ar gyfer atal dros dro, a chymryd camau gweithredu heb fod mor bell ag atal dros dro, gyflogai er budd diogelwch neu lesiant pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth;</p> <p>(b) darpariaeth bod methiant ar ran cyflogai i adrodd am achos o gam-drin, neu am amheuaeth o gam-drin, i berson priodol yn sail dros ganiatáu cychwyn achos disgyblu.</p> <p>(3) At ddiben paragraff (2)(b), person priodol yw—</p> <p>(a) y darparwr gwasanaeth;</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau weithdrefn ddisgyblu, yn unol â chyfreithiau cyflogaeth, i ymdrin â pherfformiad ac ymddygiad staff. Mae hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ gwybodaeth am yr hyn sy'n ymddygiad priodol ac yn ymddygiad amhriodol a pha gamau fydd yn cael eu cymryd os bydd pryderon ynghylch ymddygiad staff. ○ y trefniadau i atal aelod staff o'i swydd (neu ei symud i wneud dyletswyddau eraill) yn ystod y broses o ystyried neu ymchwilio i honiad o gam-drin neu bryder difrifol yn ymwneud â diogelwch neu lesiant unigolion. • Os yw'r darparwr gwasanaeth yn cynnal gweithdrefn ddisgyblu yn erbyn unrhyw weithiwr a bod y gweithiwr gadael yn ystod y broses ddisgyblu, bydd y darparwr gwasanaeth yn cwblhau'r broses ac yn cytuno ar sanctiwn ar gyfer y

<p>(b) yr unigolyn cyfrifol; (c) swyddog i'r rheoleiddiwr gwasanaethau; (d) swyddog i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y darperir y gwasanaeth; (e) yn achos cam-drin neu amheuaeth o gam-drin plentyn, swyddog i'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant; neu (f) swyddog heddlu, yn ôl y digwydd.</p>	<p>gweithiwr. Os mai diswyddo'r gweithiwr fydd y sancsiwn neu, lle nad yw'r sancsiwn yn arwain at ddiswyddiad ond bod natur y camymddwyn peri pryder a bod y gweithiwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd y darparwr gwasanaeth yn rhoi gwybod i Gofal Cymdeithasol Cymru am ei benderfyniad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau disgyblu ac unrhyw weithdrefnau cwyno, ac yn eu deall. • Mae adroddiad ysgrifenedig am unrhyw ymchwiliadau disgyblu a'r camau a gymerir yn cael ei gadw ar ffeil y gweithiwr yn unol â pholisïau/gweithdrefnau'r sefydliad a gofynion diogelu data.
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Pennod 4: Y gofynion ar Unigolion Cyfrifol (Rhannau 9 i 13 o'r Rheoliadau)

Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig yn unig. Nodir dyletswyddau rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol ym Mhennod 5 o'r ddogfen hon.

Mae Rhannau 9 i 13 o'r Rheoliadau yn nodi gofynion i sicrhau bod unigolyn dynodedig ar lefel uwch briodol (yr unigolyn cyfrifol) yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a hefyd am gydymffurfio. Bydd y Rheoliadau'n gosod gofynion penodol ar yr unigolyn cyfrifol a bydd yn galluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth i gymryd camau yn erbyn y darparwr gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig ond hefyd yn erbyn yr unigolyn cyfrifol oni chydymffurfir â'r gofynion rheoliadol.

Yr unigolyn cyfrifol sy'n gyfrifol am **oruchwylio** rheolaeth y gwasanaeth ac am roi sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Yr unigolyn cyfrifol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y gwasanaeth reolwr, a digon o adnoddau a chefnogaeth. Nid yr unigolyn cyfrifol sy'n gyfrifol am reolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd (heblaw ei fod yn rheolwr hefyd); y rheolwr sy'n gyfrifol am hyn.

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol (Rhan 9)

Rheoliad 44	Canllawiau
<p>Goruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth</p> <p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth mabwysiadu, sy'n cynnwys cymryd y camau a ddisgrifir yn rheoliadau 34 (polisi a gweithdrefn gwyno), 50 (y trefniadau pan yw'r rheolwr yn absennol) a 51 (ymweliadau).</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r unigolyn cyfrifol yn dilyn y systemau a'r prosesau a'r ragnodwyd gan y darparwr gwasanaeth er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:<ul style="list-style-type: none">○ canolbwyntio ar lesiant a chanlyniadau personol yr unigolyn;○ gwrando ar unigolion;○ ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion;○ sicrhau nad yw unigolion yn cael eu rhoi mewn perygl diangen;○ sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i unigolion;

	<ul style="list-style-type: none"> ○ cyflawni'r datganiad o ddiben; ○ cyflogi nifer ddigonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, sy'n gymwys, ac sy'n yn fedrus i gyflawni eu rôl; ○ sicrhau bod ganddynt adnoddau, cyfleusterau a chyfarpar digonol. <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau i adolygu ac asesu sut mae'r rheolwr yn rhoi camau ar waith ar sail yr hyn a nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arolygu allanol, o fewn yr amserlenni a bennwyd. • Mae llinellau atebolrwydd, dirprwyo a chyfrifoldeb clir wedi'u nodi'n ysgrifenedig rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr (heblaw mewn achos pan fo'r rheolwr yn unigolyn cyfrifol hefyd). • Mae trefniadau ar waith i'r rheolwr allu cysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn cyfrifol, yn ogystal â'r cyfle i gyfarfod yn ffurfiol fel rhan o adolygiadau ansawdd yr unigolyn cyfrifol (heblaw mewn achos pan fo'r rheolwr yn unigolyn cyfrifol hefyd). • Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod rheolwyr yn cael cymorth drwy eu goruchwyllo a'u hyfforddi, a rhoi cyfle iddynt feddu ar sgiliau ar gyfer eu datblygiad proffesiynol sy'n gefn iddynt yn eu rôl.
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 45	Canllawiau
<p>Dyletswydd i benodi rheolwr</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu. Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r amodau ym mharagraff (2) neu (3) yn gymwys.</p> <p>(2) Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn, yr amodau yw—</p> <p>(a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn;</p> <p>(b) bod y darparwr gwasanaeth yn bwriadu rheoli'r gwasanaeth;</p> <p>(c) bod y darparwr gwasanaeth yn addas i reoli'r gwasanaeth;</p> <p>(d) bod y darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru; ac</p> <p>(e) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth.</p> <p>(3) Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, yn gorff corfforaethol neu'n gorff anghorfforedig, yr amodau yw—</p> <p>(a) bod y darparwr gwasanaeth yn cynnig bod yr unigolyn sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol am y gwasanaeth i'w benodi i reoli'r gwasanaeth;</p> <p>(b) bod yr unigolyn hwnnw yn addas i reoli'r gwasanaeth;</p> <p>(c) bod yr unigolyn hwnnw wedi ei gofrestru fel rheolwr â Gofal Cymdeithasol Cymru; a</p> <p>(d) bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cytuno i'r unigolyn hwnnw reoli'r gwasanaeth.</p> <p>(4) At ddibenion paragraff (2)(b), nid yw'r darparwr gwasanaeth yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 40(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r darparwr gwasanaeth.</p> <p>(5) Nid yw'r ddyletswydd ym mharagraff (1) wedi ei chyflawni os yw'r person a benodir i reoli'r gwasanaeth yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei benodi a'i fod ar gael i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am benodi'r rheolwr, waeth a ydynt yn cymryd rhan uniongyrchol o'r broses recriwtio ai peidio. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn gallu bod yn sicr bod gan y person a benodir yn rheolwr y gwasanaeth yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd i reoli'r gwasanaeth mewn ffordd ddiogel a dibynadwy. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn dangos bod y broses o benodi'r rheolwr wedi'i gwneud gyda diwydrwydd dyladwy ac yn unol â gofynion rheoliad 40 (addasrwydd staff). • Pan fydd rheolwr yn absennol am gyfnod o fwy na thri mis, bydd y darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod rheolwr cymwys sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol, ac sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ar gael i reoli'r gwasanaeth.

<p>Rheoliad 46</p>	<p>Canllawiau</p>
<p>Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr</p> <p>(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.</p> <p>(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i reoli'r gwasanaeth oni bai bod gofynion rheoliad 40(2) (addasrwydd staff) wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r person hwnnw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn addas ac yn alluog i redeg y gwasanaeth yn unol â'i ddatganiad o ddiben. Mae hyn yn cynnwys sicrhau: <ul style="list-style-type: none"> ○ bod gan y rheolwr y cymwysterau priodol; ○ bod y rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru; ○ bod y rheolwr yn brofiadol wrth ddarparu gwasanaeth mabwysiadu; ○ bod y broses o archwilio cefndir darpar reolwyr yn cynnwys y gwiriadau perthnasol sy'n ofynnol gan y deddfwriaeth i sicrhau'r unigolyn cyfrifol bod y person yn addas ac yn alluog i weithio gydag unigolion agored i niwed.
<p>Rheoliad 47</p>	<p>Canllawiau</p>
<p>Cyfyngiadau ar benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth</p> <p>(1) Ni chaiff yr unigolyn cyfrifol benodi person i reoli mwy nag un gwasanaeth mabwysiadu, oni bai bod paragraff (2) yn gymwys.</p> <p>(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—</p> <p>(a) os yw'r darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am ganiatâd i benodi rheolwr ar gyfer mwy nag un gwasanaeth, a</p> <p>(b) os yw'r rheoleiddiwr gwasanaethau wedi ei fodloni—</p> <p>(i) na fydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ddarparu'r gwasanaeth; a</p> <p>(ii) y bydd y trefniadau rheoli arfaethedig yn darparu goruchwyliaeth ddibynadwy ac effeithiol o bob gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pan gaiff rheolwr ei benodi i reoli mwy nag un gwasanaeth, cytunir ar hyn ymlaen llaw â rheoleiddiwr y gwasanaeth.

Rheoliad 48	Canllawiau
<p>Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i'r darparwr gwasanaeth</p> <p>Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 45(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) o enw'r person a benodir, a</p> <p>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.</p>	<p>Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hysbysu'r darparwr gwasanaeth am fanylion penodiad y rheolwr; • darparu'r wybodaeth a bennir gan y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r unigolyn; • hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth a Gofal Cymdeithasol Cymru pan benodir rheolwr newydd.

Rheoliad 49	
<p>Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r rheoleiddiwr gwasanaethau</p> <p>(1) Wrth benodi rheolwr yn unol â rheoliad 45(1), rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi hysbysiad i Ofal Cymdeithasol Cymru a'r rheoleiddiwr gwasanaethau—</p> <p>(a) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y person a benodir, a</p> <p>(b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i gymryd effaith.</p> <p>(2) Mewn achos pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn a bod y rheoleiddiwr gwasanaethau wedi cytuno i'r darparwr gwasanaeth reoli'r gwasanaeth, rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi hysbysiad i Ofal Cymdeithasol Cymru—</p> <p>(a) o enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru y darparwr gwasanaeth, a</p> <p>(b) o'r dyddiad y mae'r darparwr gwasanaeth i reoli'r gwasanaeth ohono.</p>	

Rheoliad 50	Canllawiau
<p>Y trefniadau pan yw'r rheolwr yn absennol</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod y gwasanaeth mabwysiadu yn cael ei reoli'n effeithiol ar unrhyw adeg pan nad oes rheolwr neu pan nad yw'r</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol strwythurau ar waith sy'n sicrhau, os na fydd y rheolwr ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm, y bydd system ddirprwyo effeithiol a chymwys ar waith i ddarparu arweiniad o ddydd i ddydd sydd: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn parhau i roi cymorth i'r unigolion allu cyflawni eu

<p>rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth.</p> <p>(2) Os nad oes rheolwr neu os nad yw'r rheolwr yn bresennol yn y gwasanaeth am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r unigolyn cyfrifol—</p> <p>(a) hysbysu'r darparwr gwasanaeth a'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a</p> <p>(b) rhoi gwybod iddynt am y trefniadau sydd wedi eu rhoi yn eu lle ar gyfer rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.</p>	<p>canlyniadau personol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ yn cynnal diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth; ○ yn sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth; ○ yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau; ○ yn cynnal datblygiad proffesiynol y staff. <ul style="list-style-type: none"> • Os na fydd y rheolwr, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ar gael neu os bydd yn absennol am unrhyw reswm am fwy na 28 diwrnod, bydd yr unigolyn cyfrifol yn hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth yn ysgrifenedig ac yn ddi-oed am y rheswm dros yr absenoldeb a'r trefniadau ar gyfer llenwi'r bwlch.
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 51	Canllawiau
<p>Ymweliadau</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol—</p> <p>(a) ymweld â'r fangre y darperir y gwasanaeth mabwysiadu ohoni;</p> <p>(b) cwrdd ag aelodau o staff sydd wedi eu cyflogi i ddarparu gwasanaeth mabwysiadu o bob man y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef; ac</p> <p>(c) cwrdd ag unigolion y mae gwasanaeth mabwysiadu yn cael ei ddarparu ar eu cyfer o bob man o'r fath.</p> <p>(2) Mae amlder ymweliadau a chyfarfodydd o'r fath i'w benderfynu gan yr unigolyn cyfrifol gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ond rhaid iddynt gael eu cynnal o leiaf bob tri mis.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn bersonol i fonitro perfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â'i ddatganiad o ddiben ac i lywio'r adolygiad trosolwg ac ansawdd. Mae'r ymweliad yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ siarad (yn breifat, ar ôl cael caniatâd) gyda'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr (os yw hynny'n berthnasol) a'r staff; ○ archwilio safle'r darparwr gwasanaeth, detholiad o gofnodion o ddigwyddiadau ac unrhyw gofnodion o gwynion. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu tystiolaeth bod ymweliadau'n cael eu logio a'u dogfennu.

Gofynion ar unigolion ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol (Rhan 10)

Rheoliad 52	Canllawiau
<p>Goruchwylio digonolrwydd adnoddau</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth mabwysiadu yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.</p> <p>(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol.</p> <p>(3) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith sy'n darparu gwybodaeth am y gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ trosiant staff; ○ lefelau salwch staff; ○ cwynion; ○ materion diogelu; ○ adroddiadau arolygu gan reoleiddiwr y gwasanaeth; ○ canlyniadau arolygiadau a neu adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r gwasanaeth tân. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod ar unwaith i'r darparwr gwasanaeth os bydd y gwasanaeth: <ul style="list-style-type: none"> ○ yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau; ○ yn methu neu ddim yn gallu cyflawni neu roi sylw i faterion a godwyd mewn adroddiadau arolygu; ○ yn darparu gwasanaeth nad yw wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben.
<p>Rheoliad 53</p> <p>Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr gwasanaeth—</p> <p>(a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu'r</p>	<p>Canllawiau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i roi gwybod i'r darparwr gwasanaeth mabwysiadu yn unol â gofynion rheoliadau 53 a 58(4). • Mae gan yr unigolyn cyfrifol system ar waith i gyflwyno

<p>gwasanaeth; (b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu; (c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. (2) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p>	<p>adroddiadau i'r darparwr gwasanaeth sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i'r unigolyn cyfrifol roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ marwolaeth annisgwyl neu ddiesboniad unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth; ○ afreoleidd-dra ariannol; ○ pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr; ○ unrhyw ddigwyddiad sy'n effeithio ar argaeledd staff.
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 54	Canllawiau
<p>Ymgysylltu ag unigolion ac eraill</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—</p> <p>(a) unigolion;</p> <p>(b) unrhyw awdurdod lleol neu awdurdod lleol yn Lloegr sydd wedi trefnu bod gofal a chymorth yn cael eu darparu gan y gwasanaeth mabwysiadu;</p> <p>(c) personau sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu, ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.</p> <p>(2) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd am y safbwyntiau a geir er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr gwasanaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau adborth ar bob agwedd ar y ddarpariaeth gwasanaethau, ac i sicrhau bod y trefniadau ar gael i bawb a restrir o dan reoliad 54(1) ac yn eu cynnwys. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i gysylltu â'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried eu cyflwr penodol a/neu unrhyw anghenion cyfathrebu sydd ganddynt. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ teuluoedd neu eu cynrychiolwyr enwebedig; ○ comisiynwyr; ○ awdurdodau lleoli;

- rheoleiddwyr;
- cyrff proffesiynol.

Gofynion ar unigolyn cyfrifol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd y gwasanaeth (Rhan 11)

Rheoliad 55	Canllawiau
<p>Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi digwyddiadau a chwynion</p> <p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi digwyddiadau, cwynion a materion y mae rhaid gwneud hysbysiadau yn eu cylch yn unol â rheoliadau 9 (hysbysiadau: darparwr gwasanaeth) a 62 (hysbysiadau: unigolyn cyfrifol).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi'r materion a restrir yn rheoliadau 9 a 62. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion a wneir yn cael eu cadw, a'u bod yn ddarllenadwy ac yn gywir.
Rheoliad 56	Canllawiau
<p>Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion</p> <p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â chadw cofnodion, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion y mae'n ofynnol iddynt gael eu cadw gan reoliad 31 (cofnodion) yn gywir ac yn gyflawn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Os bydd y cofnodion yn cael eu storio'n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi gwybodaeth ac wedi'i diwygio.

Rheoliad 57	Canllawiau
<p>Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol</p> <p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i adolygu polisïau a gweithdrefnau yn unol â rheoliad 32. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n eu cefnogi yn eu rôl o gyflawni'r canlyniadau gorau i unigolion, a'u bod yn gwybod amdanynt ac yn eu deall.

Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth rheoleiddiedig (Rhan 12)

Rheoliad 58	Canllawiau
<p>Adolygiad o ansawdd y gofal</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu.</p> <p>(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob 6 mis.</p> <p>(3) Fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir, rhaid i'r unigolyn cyfrifol wneud trefniadau ar gyfer—</p> <p>(a) ystyried canlyniad yr ymgysylltiad ag unigolion ac eraill, fel sy'n ofynnol gan reoliad 54 (ymgysylltu ag unigolion ac eraill);</p> <p>(b) dadansoddi'r data cyfanredol ar ddigwyddiadau,</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ casglu a dadansoddi'r adborth gan y rhai a restrir o dan reoliad 54(1); ○ materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu; ○ patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion; ○ canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan reoleiddwyr; ○ canlyniad ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth; ○ archwiliadau o gofnodion.

<p>digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion;</p> <p>(c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion;</p> <p>(d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.</p> <p>(4) Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio adroddiad i'r darparwr gwasanaeth y mae rhaid iddo gynnwys—</p> <p>(a) asesiad o safon y gofal a'r cymorth a ddarperir, a</p> <p>(b) argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.</p> <p>(5) Ond nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod systemau a phrosesau'n cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn galluogi'r unigolyn cyfrifol i ddarganfod unrhyw beth sydd neu a allai fod yn effeithio ar y gwasanaeth, ac i ymateb yn briodol heb oedi. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau y gwrandewir ar bob adborth, y caiff ei gofnodi ac yr ymatebir iddo fel y bo'n briodol. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, materion diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu gyda'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion gofalu diogel a thosturiol. • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i'r darparwr gwasanaeth ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae'r adroddiad, sy'n cynnwys yr wybodaeth a oedd yn yn sail iddo (yn ymwneud â'r meysydd hynny a nodir uchod) yn bwydo neu'n ffurfio rhan o'r datganiad cydymffurfio i'w gynnwys yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth.
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 59	Canllawiau
<p>Datganiad o gydymffurfedd â'r gofynion o ran safonau gofal a chymorth</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol lunio'r datganiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gynnwys yn y datganiad blynyddol o dan adran 10(2)(b) o'r Ddeddf, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r man neu'r mannau y mae'r unigolyn cyfrifol wedi ei ddynodi mewn cysylltiad ag ef neu â hwy.</p> <p>(2) Wrth lunio'r datganiad, rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi sylw i'r asesiad o safon y gofal a'r cymorth a gynhwysir mewn adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 58(4) (adolygiad o ansawdd y gofal).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol wedi paratoi'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad cydymffurfio ac yn natganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth, a bydd yn atebol am ei hansawdd a'i chywirdeb.

Gofynion eraill ar unigolion cyfrifol (Rhan 13)

Rheoliad 60	Canllawiau
<p>Cymorth ar gyfer staff sy'n codi pryderon</p> <p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith: <ul style="list-style-type: none"> ○ fel bod staff ac unigolion yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn ei ddeall; ○ fel bod staff yn deall na fydd dim goddefgarwch i ofal gwael na bod yn ddi-hid ynghylch llesiant unigolion, a bod croeso ac anogaeth iddynt roi gwybod am faterion; ○ i sicrhau bod staff yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu.

Rheoliad 61	Canllawiau
<p>Dyletswydd gonestrwydd</p> <p>Rhaid i'r unigolyn cyfrifol weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—</p> <p>(a) unigolion sy'n cael gofal a chymorth; a</p> <p>(b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny.</p>	

Rheoliad 62	Canllawiau
<p>Hysbysiadau</p> <p>(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4.</p> <p>(1) Rhaid i'r hysbysiadau sy'n ofynnol gan baragraff (1) gynnwys manylion y digwyddiad.</p> <p>(2) Oni nodir fel arall, rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn ddi-oed ac yn ysgrifenedig.</p> <p>(3) Rhaid i hysbysiadau gael eu gwneud yn y modd a'r ffurf sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr gwasanaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau addas i roi gwybod i reoleiddiwr y gwasanaeth am ddigwyddiadau a nodir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau.

Pennod 5: Gofynion ar reolwyr gwasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol (Rhan 17 o'r Rheoliadau)

Mae'r bennod hon yn gymwys i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu yn unig. Nodir dyletswyddau unigolion cyfrifol ar gyfer darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig ym mhennod 4 o'r ddogfen hon.

Mae Rhan 17 o'r Rheoliadau'n disgrifio'r cyfrifoldebau y mae rhaid i'r rheolwr sydd wedi'i gyflogi gan wasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldebau sy'n ymwneud â goruchwylio digonolrwydd adnoddau, gwneud adroddiadau i ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol, sicrhau bod systemau'n bodoli i gofnodi cwynion ac ar gyfer cadw cofnodion a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. Rhaid i'r rheolwr gwasanaethau mabwysiadu sefydlu trefn addas i ymgysylltu ag unigolion a staff ac mae'n gyfrifol am drefnu adolygiadau ansawdd gofal.

Rheoliad 68	Cod Ymarfer
<p>Goruchwylio digonolrwydd adnoddau</p> <p>(1) Rhaid i'r rheolwr adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.</p> <p>(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol.</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol systemau a phrosesau ar waith sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol ac unrhyw feysydd lle y gall fod angen arsylwi/ystyriaeth fwy gofalus a/neu wella. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:<ul style="list-style-type: none">○ trosiant staff;○ lefelau salwch staff;○ cwynion;○ materion diogelu;○ adroddiadau arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru;○ canlyniadau arolygiadau a/neu adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r gwasanaeth tân.• Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol drefniadau addas i rybuddio pennaeth y gwasanaeth ac uwch swyddogion perthnasol eraill (yn yr awdurdod lleol) ar

	<p>unwaith os yw'r gwasanaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ yn methu â chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau; ○ yn methu neu ddim yn gallu cyflawni neu roi sylw i faterion a godwyd mewn adroddiadau arolygu; ○ yn darparu gwasanaeth nad yw wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben.
--	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 69	Cod Ymarfer
<p>Adroddiadau eraill i'r awdurdod lleol</p> <p>Rhaid i'r rheolwr, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr gwasanaeth—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) am unrhyw bryderon ynghylch darparu'r gwasanaeth mabwysiadu, (b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu, ac (c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i alluogi proses o adrodd i bennaeth y gwasanaeth ac uwch swyddogion eraill (yn yr awdurdod lleol) yn unol â gofynion rheoliadau 69 a 74(4). • Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol system ar waith i gyflwyno adroddiadau i bennaeth y gwasanaeth ac i uwch swyddogion eraill (yn yr awdurdod lleol) sy'n adlewyrchu'n gywir ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau i reolwr y gwasanaeth roi adborth ac i roi gwybod am unrhyw faterion brys y mae gofyn cymryd camau yn eu cylch ar unwaith. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ marwolaeth annisgwyl neu ddiesboniad unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth; ○ afreoleidd-dra ariannol; ○ pryderon sylweddol a godwyd gan reoleiddiwr y gwasanaeth neu'r comisiynwyr; ○ unrhyw ddigwyddiad sy'n effeithio ar argaeledd staff.

<p>Rheoliad 70</p>	<p>Cod Ymarfer</p>
<p>Ymgysylltu ag unigolion ac eraill</p> <p>(1) Rhaid i'r rheolwr roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—</p> <p>(a) unigolion;</p> <p>(b) staff sy'n cael eu cyflogi gan y gwasanaeth mabwysiadu; ac</p> <p>(c) unrhyw awdurdod lleol arall neu awdurdod lleol yn Lloegr, ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.</p> <p>(2) Rhaid i'r rheolwr adrodd am y safbwyntiau a geir er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr gwasanaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol drefniadau addas i alluogi adborth ar bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a sicrhau bod y trefniadau hyn yn hygyrch, ac yn cynnwys pob un o'r rhai a restrir o dan reoliad 70(1). • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i gysylltu ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac i gael eu barn, yn briodol i'w hoed, lefel eu dealltwriaeth ac yn ystyried unrhyw gyflwr penodol neu angen o ran cyfathrebu. • Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol berthynas gadarnhaol â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, a bydd ar gael yn hwylus i'r bobl hynny. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ teuluoedd neu eu cynrychiolwyr enwebedig; ○ comisiynwyr; ○ darparwyr gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig; ○ rheoleiddwyr; ○ cyrff proffesiynol.
<p>Rheoliad 71</p>	<p>Cod Ymarfer</p>
<p>Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle i gofnodi cwynion</p> <p>Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle i gofnodi cwynion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r weithdrefn gwyno yn rheoliad 34, yn cydymffurfio â hi ac yn ei hyrwyddo. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion a wneir yn cael eu cadw, a'u bod yn ddarllenadwy ac yn gywir.

Rheoliad 72	Cod Ymarfer
<p>Dyletswydd i sicrhau bod systemau yn eu lle ar gyfer cadw cofnodion</p> <p>Rhaid i'r rheolwr sicrhau bod systemau effeithiol yn eu lle mewn perthynas â'r cofnodion y mae rhaid eu cadw yn unol â rheoliad 31, sy'n cynnwys systemau ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn gyflawn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Os bydd y cofnodion yn cael eu storio'n electronig, byddant yn ddiogel a bydd gan y staff godau mynediad unigol sy'n creu trywydd archwilio clir a fydd yn dangos pwy sydd wedi cofnodi gwybodaeth ac wedi'i diwygio.
Rheoliad 73	Cod Ymarfer
<p>Dyletswydd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol</p> <p>Rhaid i'r rheolwr roi trefniadau addas yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r darparwr gwasanaeth yn cael eu cadw'n gyfredol, gan roi sylw i'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn sicrhau bod trefniadau ar waith i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau yn unol â rheoliad 32. • Mae rheolwr y gwasanaeth yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith fel bod staff yn gallu cael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n eu cefnogi yn eu rôl o gyflawni'r canlyniadau gorau i unigolion, a'u bod yn gwybod amdanynt ac yn eu deall.
Rheoliad 74	Cod Ymarfer
<p>Adolygiad o ansawdd y gofal</p> <p>(1) Rhaid i'r rheolwr roi trefniadau addas yn eu lle i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu.</p> <p>(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) wneud darpariaeth i ansawdd y gofal a'r cymorth gael ei adolygu mor aml ag sy'n ofynnol ond o leiaf bob 6 mis.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol drefniadau addas ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ casglu a dadansoddi'r adborth gan y rhai a restrir o dan reoliad 70(1); ○ materion a gwersi a ddysgwyd wrth ddadansoddi cwynion a materion diogelu;

<p>(3) Fel rhan o unrhyw adolygiad a gynhelir, rhaid i'r reolwr wneud trefniadau ar gyfer—</p> <p>(a) ystyried canlyniad yr ymgysylltiad ag unigolion ac eraill, fel sy'n ofynnol gan reoliad 70 (ymgysylltu ag unigolion ac eraill);</p> <p>(b) dadansoddi'r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion;</p> <p>(c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion;</p> <p>(d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion.</p> <p>(4) Ar ôl cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal a'r cymorth yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i'r rheolwr lunio adroddiad i'r darparwr gwasanaeth y mae rhaid iddo gynnwys—</p> <p>(a) asesiad o safon y gofal a'r cymorth a ddarperir; a</p> <p>(b) argymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ patrymau a thueddiadau a nodwyd drwy ddadansoddi hysbysiadau, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion; ○ canlyniad unrhyw adroddiadau arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru; ○ canlyniad ymweliadau i fonitro'r gwasanaeth; ○ archwiliadau o gofnodion. <ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau archwilio ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth mabwysiadu yn rhoi sicrwydd bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu. • Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol drefniadau addas ar waith i sicrhau y gwrandewir ar bob adborth, y caiff ei gofnodi ac yr ymatebir iddo fel y bo'n briodol; • Mae gan reolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol drefniadau addas ar waith i sicrhau bod meysydd dysgu yn sgil cwynion, materion diogelu a chwythu'r chwiban yn cael eu rhannu gyda'r staff i wella'r gwasanaeth ac i annog arferion gofalu diogel a thosturiol. • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dadansoddi a bod argymhellion yn cael eu gwneud i bennaeth y gwasanaerth ac i uwch swyddogion eraill (yn yr awdurdod lleol) ynghylch sut ac ymhle y gellir gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth mabwysiadu.
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rheoliad 75	Cod Ymarfer
<p>Cymorth ar gyfer codi pryderon</p> <p>Rhaid i'r rheolwr sicrhau y cydymffurfir â pholisi chwythu chwiban y darparwr gwasanaeth a bod y trefniadau i alluogi a chefnogi pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth i godi pryderon o'r fath yn cael eu gweithredu'n effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith: <ul style="list-style-type: none"> ○ fel bod staff ac unigolion yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn ei ddeall; ○ fel bod staff yn deall na fydd dim goddefgarwch i ofal gwael na bod yn ddi-hid ynghylch llesiant unigolion, a bod croeso ac anogaeth iddynt roi gwybod am faterion; ○ i sicrhau bod staff yn deall bod croeso ac anogaeth iddynt fynegi pryderon, ac na fydd hynny'n cael ei anwybyddu.
Rheoliad 76	Cod Ymarfer
<p>Dyletswydd gonestrwydd</p> <p>Rhaid i'r rheolwr weithredu mewn ffordd agored a thryloyw gydag—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) unigolion sy'n cael gofal a chymorth; a (b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny. 	

Pennod 6: Gofynion eraill ar ddarparwr gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod lleol (Rhan 18 o'r Rheoliadau)

Mae'r bennod hon yn ymwneud â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn unig.

Mae Rhan 18 o'r Rheoliadau yn nodi sut y mae darparwyr gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol yn darparu eu gwasanaethau mabwysiadu o ran rhieni biolegol a darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo. Mae hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer agor cofnod achos plentyn.

Rheoliad 77	Cod Ymarfer
<p>Gofyniad i agor cofnod achos plenty</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sefydlu cofnod achos ("cofnod achos y plentyn") mewn cysylltiad â phob plentyn a rhoi ynddo—</p> <p>(a) unrhyw wybodaeth ac adroddiadau a geir gan yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â'r plentyn;</p> <p>(b) adroddiad sefydlogrwydd y plentyn;</p> <p>(c) unrhyw gofnod ysgrifenedig o unrhyw drafodion panel mabwysiadu o dan reoliad 18 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(7), ei argymhelliad o ran a ddylai plentyn gael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu ai peidio a'r rhesymau dros ei argymhelliad ac unrhyw gyngor a roddir gan y panel i asiantaeth fabwysiadu;</p> <p>(d) unrhyw gofnod o benderfyniad asiantaeth fabwysiadu ac unrhyw hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw o dan reoliad 19 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005;</p> <p>(e) manylion unrhyw gydsyniad gan riant neu warcheidwad plentyn i'w leoli ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o Ddeddf 2002 (lleoli plant â chydsyniad rhieni);</p>	<ul style="list-style-type: none">• Mae darparwyr gwasanaethau yn sicrhau bod trefniadau addas ar waith i sefydlu cofnodion achos yn unol â rheoliad 77.• Mae gan asiantaethau mabwysiadu drefniadau addas ar waith i sicrhau bod pob cofnod achos a sefydlir yn unol â'r rheoliadau hyn yn cael eu cadw am o leiaf 100 mlynedd o ddyddiad y gorchymyn mabwysiadu (yn unol â Rheoliad 12 neu 22 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005.

(7) O.S. 2005/1313.

<p>(f) manylion unrhyw gydsyniad gan riant neu warcheidwad plentyn i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o Ddeddf 2002 (rhoi cydsyniad ymlaen llaw i fabwysiadu);</p> <p>(g) unrhyw ffurflen neu hysbysiad sy'n tynnu cydsyniad yn ôl o dan adran 19 neu 20 o Ddeddf 2002 neu hysbysiad a roddir o dan adran 20(4)(a) neu (b) o Ddeddf 2002;</p> <p>(h) copi o unrhyw orchymyn lleoli mewn cysylltiad â'r plentyn; ac</p> <p>(i) unrhyw ddogfennau eraill neu wybodaeth arall a geir gan yr awdurdod lleol ac y mae'n ystyried y dylid eu cynnwys neu ei chynnwys yn y cofnod achos.</p>	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Rheoliad 78	Cod Ymarfer
<p>Rhieni biolegol</p> <p>(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth, pan fo'n ystyried mai mabwysiadu yw'r opsiwn a ffeirir ar gyfer plentyn, neu pan fo plentyn wedi ei ildio, ddarparu'r canlynol i'r rheini biolegol—</p> <p>(a) gwasanaeth cwnsela;</p> <p>(b) cymaint o wybodaeth mewn perthynas â'r plentyn ag sy'n rhesymol ofynnol ar y rhieni naturiol, ac y mae'r awdurdod lleol yn gallu ei rhoi;</p> <p>(c) esboniad a gwybodaeth ysgrifenedig mewn cysylltiad â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) y weithdrefn mewn cysylltiad â lleoli ar gyfer mabwysiadu a mabwysiadu, gan gynnwys Cofrestr Fabwysiadu Cymru ac unrhyw gofrestr fabwysiadu genedlaethol berthnasol arall; a</p> <p>(ii) goblygiadau cyfreithiol—</p> <p>(aa) rhoi cydsyniad i leoli ar gyfer mabwysiadu o dan adran 19 o Ddeddf 2002 (lleoli plant â chydsyniad rhieni);</p> <p>(bb) rhoi cydsyniad i wneud gorchymyn mabwysiadu yn y dyfodol o dan adran 20 o Ddeddf 2002 (cydsyniad ymlaen llaw i</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith i weithio gyda rhieni biolegol a theuluoedd biolegol (gan gynnwys brodyr a chwirydd) cyn ac ar ôl y mabwysiadu, ac i'w cefnogi. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am grwpiau a gwasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol a helpu rhieni biolegol i gyflawni'r cynlluniau cyswllt y cytunwyd arnynt.

fabwysiadu);

(cc) gorchymyn lleoli(8);

(dd) mabwysiadu.

(2) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth, pan fo'n ystyried mai mabwysiadu yw'r opsiwn a ffeirir ar gyfer plentyn, neu pan fo plentyn wedi ei ildio, ganfod dymuniadau a theimladau rhieni naturiol a gwarcheidwad y plentyn ac unrhyw berson arwyddocaol arall y mae'r darparwr gwasanaeth yn ystyried ei fod yn berthnasol mewn perthynas ag—

(a) y materion a nodir yn adran 1(4)(f)(ii) a (iii) o Ddeddf 2002 (materion y mae rhaid i'r asiantaeth roi sylw iddynt);

(b) lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu a'i fabwysiadu, gan gynnwys unrhyw ddymuniadau a theimladau ynghylch magwraeth grefyddol a diwylliannol y plentyn;

(c) cyswllt â'r plentyn os yw'r awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu neu os caiff y plentyn ei fabwysiadu.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan na fo gan dad y plentyn na'r fenyw sy'n rhiant i'r plentyn yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008(9) gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a bod y person hwnnw yn hysbys i'r awdurdod lleol.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys a bod y darparwr gwasanaeth wedi ei fodloni ei bod yn briodol gwneud hynny, rhaid i'r darparwr gwasanaeth ganfod, i'r graddau y bo'n bosibl, a yw'r tad neu'r fenyw sy'n rhiant yn rhinwedd adran 43 o Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 2008—

(a) yn dymuno cael cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn o dan adran 4 neu 4ZA o Ddeddf Plant 1989; neu

(b) yn bwriadu gwneud cais am orchymyn trefniadau plentyn

(8) Mae i "gorchymyn lleoli" yr ystyr a roddir i "placement order" yn adran 21 o Ddeddf 2002.

(9) 2008 p. 22.

<p>mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 8 o Ddeddf Plant 1989, neu pan fo'r plentyn yn ddarostyngedig i orchymyn gofal, gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf Plant 1989 (cyswllt rhieni â phlant mewn gofal).</p>	
-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--

Rheoliad 79	Cod Ymarfer
<p>Darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr a gymeradwywyd</p> <p>Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—</p> <ol style="list-style-type: none"> (a) bod â chynlluniau ysgrifenedig ar ei strategaeth i recriwtio nifer digonol o fabwysiadwyr; (b) bod â chynlluniau cynhwysfawr ar gyfer prosesau paratoi a chymeradwyo ar gyfer mabwysiadwyr yn ei bolisïau a'i weithdrefnau; (c) darparu gwybodaeth ysgrifenedig i ddarpar fabwysiadwyr am y broses fabwysiadu gan gynnwys gwybodaeth am— <ol style="list-style-type: none"> (i) y polisi a'r gweithdrefnau mewn cysylltiad â'r broses fabwysiadu; (ii) trefniadau ar gyfer asesu gofal a chymorth a'u darparu; (iii) Cofrestr Fabwysiadu Cymru ac unrhyw gofrestr fabwysiadu genedlaethol berthnasol arall; (iv) trefniadau lleol a rhanbarthol; (d) darparu cynhorthwy pan amharwyd ar leoliad neu pan fo perygl y bydd hynny'n digwydd, sy'n cynnwys defnyddio cyfryngu a chyfarfodydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau gynlluniau ysgrifenedig ar gyfer gweithredu a gwerthuso strategaethau effeithiol i recriwtio digon o fabwysiadwyr i ddiwallu anghenion yr ystod o blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu'n lleol. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau wybodaeth ysgrifenedig glir am y broses baru, cyflwyno a lleoli, yn ogystal ag unrhyw gymorth y bydd ei angen ar ddarpar fabwysiadwyr neu fabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo, i hwyluso hyn. • Mae darparwyr gwasanaethau yn trefnu bod y meini prawf cymhwystra, gwybodaeth am ddod yn rhiant mabwysiadol, a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan fabwysiadwyr ar gael Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion yn cael eu cadw, a'u bod yn ddarllenadwy ac yn gywir. • Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gofnodion yn cael eu cadw, a'u bod yn ddarllenadwy ac yn gywir. • Mae gan ddarparwyr gwasanaethau drefniadau ar waith ar gyfer adegau pan fydd rhywbeth yn amharu ar y lleoliad neu'r mabwysiadu, ac maent yn darparu cymorth i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.